TGAU

# TGAU CBAC
# CELF A DYLUNIO

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

## CANLLAW ADDYSGU

Addysgu o 2016



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Pwysigrwydd Celf a Dylunio | 4 |
| Cefnogi addysgu a dysgu da mewn Celf a Dylunio | 6 |
| Beth yw'r gwahaniaethau rhwng yr hen fanyleb a'r fanyleb newydd? | 8 |
| Beth sydd wedi newid a beth sydd yr un fath? | 8 |
| Beth sy'n greiddiol i'r fanyleb newydd a beth yw ei rhannau mwyaf hanfodol? | 11 |
| Mynd i'r afael â'r Amcanion Asesu | 12 |
| AA1: Dealltwriaeth feirniadol | 12 |
| AA2: Gwneud creadigol | 15 |
| AA3: Cofnodi myfyriol | 21 |
| AA4: Cyflwyniad personol | 23 |
| Beth yw'r gydberthynas rhwng yr Amcanion Asesu a phedair elfen hanfodol y fanyleb? | 25 |
| Rhestr Wirio Amcanion Asesu i Fyfyrwyr | 26 |
| Canllawiau TGAU ar gyfer Cynnwys Dangosol ar gyfer pob un o'r saith teitl | 26 |
| Cynlluniau Marcio ar gyfer pob uned | 26 |
| Crynodeb o'r Trefniadau Asesu ar gyfer TGAU Celf a Dylunio | 27 |
| Beth yw nodweddion y strwythur cwrs newydd a'r rhesymeg sylfaenol drostynt? | 27 |
| Beth yw cynnwys cwrs sylfaenol yr Unedau TGAU? | 29 |
| Uned 1: Portffolio | 29 |
| Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol | 29 |
| Pam y cyflwynir ysgogiadau gweledol ac ysgrifenedig gyda'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol? | 30 |
| Sut y dylid cynnal yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (Uned 2) | 30 |
| Pa newidiadau eraill a gyflwynwyd yn y fanyleb newydd? | 34 |
| Nodyn ar luniadu | 34 |
| Nodyn ar luniadu arsylwadol | 37 |
| Nodyn ar anodi ac ysgrifennu mwy estynedig | 38 |
| Cwestiynau cyffredin | 44 |

## Cyflwyniad

**Mae'r Canllawiau Addysgu hyn yn cynnig canllawiau a chymorth ymarferol, syml i athrawon sy'n awyddus i lunio cyrsiau sy'n cydymffurfio â manyleb newydd CBAC ar gyfer TGAU Celf a Dylunio i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2016 ac i'w hasesu am y tro cyntaf yn ystod Haf 2018.** Maent yn ategu ac yn ymhelaethu ar y wybodaeth sydd ar gael yn y Fanyleb Celf a Dylunio ac yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Gellir cael rhagor o wybodaeth a deunyddiau enghreifftiol ar wefannau CBAC a Lightbox. Mae'r gwefannau hyn yn cynnig adnodd addysgol sylweddol a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd.



Mae'r canllaw hwn yn fan cychwyn ar gyfer cyflwyno'r fanyleb a dylid ei ategu, lle bynnag y bo'n bosibl, drwy fynd i un o'r digwyddiadau DPP TGAU blynyddol a fydd yn arddangos ac yn adolygu enghreifftiau o waith 'byw' yn ogystal â chynnig cyfle i athrawon rwydweithio a thrafod datblygiadau a thueddiadau yn y dyfodol o fewn TGAU Celf a Dylunio.

Dyluniwyd y deunyddiau enghreifftiol a'r deunyddiau cymorth eraill yn y canllaw hwn i ddangos yr hyblygrwydd sylweddol sy'n bodoli i athrawon ddatblygu eu cyrsiau eu hunain er mwyn bodloni gofynion y saith teitl yn y fanyleb hon. Mae angen athrawon creadigol ac arloesol ar fyfyrwyr creadigol; nod y fanyleb hon yw darparu ysbrydoliaeth, i athrawon ac i'w myfyrwyr. Mae'n cynnig cryn dipyn o ryddid yn hytrach na gorfodi cyfyngiadau penodedig. Un o lwyddiannau mawr gwaith addysgu celf, crefft a dylunio yn y DU yw bod dulliau addysgu creadigol ac amrywiol yn rhan amlwg o'r maes hwn o'r cwricwlwm. Fel y cyfryw, mae cyfrifoldeb ar gyrff dyfarnu fel CBAC i gynnig cefnogaeth gadarnhaol ac i annog amrywiaeth o'r fath drwy ddarparu fframweithiau hyblyg o fewn manylebau er mwyn sicrhau y gall dulliau addysgu a dysgu arloesol a bywiog ffynnu. Mae'n hanfodol bod systemau asesu mewn celf a dylunio yn hyrwyddo dulliau creadigol yn hytrach na'u cyfyngu.
Mae'r fanyleb newydd hon yn adeiladu ar gryfderau fersiynau cynharach TGAU Celf a Dylunio ac yn osgoi newidiadau diangen tra'n ymateb mewn ffordd gadarnhaol i awgrymiadau athrawon a rhanddeiliaid eraill. Cyflwynwyd mireiniadau amrywiol er mwyn gwella eglurder a chyfrannu at ddilysrwydd a dibynadwyedd y cymhwyster.

Er mwyn gweld detholiad o aseiniadau wedi'u gosod yn allanol ac enghreifftiau o bortffolios sy'n dangos amrywiaeth o ddulliau llwyddiannus o bob un o'r saith teitl celf a dylunio, cliciwch ar y dolenni isod.

Deunyddiau DPP Hydref 2018
Deunyddiau DPP Hydref 2017
Deunyddiau DPP Gwanwyn 2017

## Pwysigrwydd Celf a Dylunio

Mae maes arferion celf, crefft a dylunio wedi ehangu yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn cynnwys amrywiaeth ddigyffelyb o arbenigeddau a sgiliau, gan gynnwys nifer gynyddol o yrfaoedd lle y defnyddir y dechnoleg ddigidol ddiweddaraf i ategu sgiliau traddodiadol.



Mae'r diwydiannau creadigol, sy'n cynnwys y celfyddydau gweledol, crefftau a dylunio, yn un o lwyddiannau mawr Prydain. Yn 2013, roedd un o bob deuddeg o swyddi yn y Deyrnas Unedig yn rhan o'r economi greadigol. Crëwyd 66,000 o swyddi newydd yn y sector rhwng 2012 a 2013. Rhwng 1997 a 2013, cynyddodd cyflogaeth yn yr economi greadigol o 1.81m o swyddi i 2.62m o swyddi - cynnydd a oedd fwy neu lai bedair gwaith yn fwy na'r cynnydd yn economi'r DU yn gyffredinol. Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) y diwydiannau creadigol yn 2013 oedd £76.9bn - sef pump y cant o economi'r DU. Yn 2013, am y drydedd flwyddyn yn olynol, roedd cyfran y diwydiannau creadigol o gyfanswm GYG y DU yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ac ar lefel o 5.0 y cant, mae bellach ar y lefel uchaf a gofnodwyd erioed - ac roedd yn uwch nag *unrhyw* sector unigol arall[1].

I gael rhagor o wybodaeth am yrfaoedd yn y Diwydiannau Creadigol, mae gwefan *Creative Journeys* yn darparu eiriolaeth a gwybodaeth gyfredol, ddefnyddiol iawn – http://creativejourneyuk.org/ Cynhyrchwyd y ffilmiau ysbrydoledig hyn sydd ar gael ar y wefan uchod drwy gydweithrediad rhwng Sefydliad Sorrell, y Sefydliad Addysg Uwch mewn Celf a Dylunio (HEAD) ac Arts Council England. Fe'u dyluniwyd i hysbysu ac annog myfyrwyr Blwyddyn 9, eu rhieni a'u hathrawon i ystyried Celf a Dylunio a Dylunio a Thechnoleg o ddifrif wrth ddewis eu hopsiynau ym Mlwyddyn 9.

Wrth gwrs, nid yw pwysigrwydd astudio celf a dylunio wedi'i gyfyngu i'w botensial fel llwybr i yrfaoedd yn y diwydiannau creadigol. Fodd bynnag, mae ystadegau gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ategu'r dadleuon o blaid perthnasedd uniongyrchol y pwnc yng nghwricwlwm ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

Yn aml, mae'r rhesymau sy'n cyfiawnhau y dylid cynnwys celf a dylunio ym maes addysg gyffredinol wedi'u rhannu'n rhesymegau cynhenid ac anghynhenid a dylid cydnabod bod gan bob disgyblaeth celf, crefft a dylunio ei dull arbennig ei hun o gynnal ymchwiliadau a llunio barn.

Mae'r dadleuon cynhenid neu gadarn o blaid astudio celf a dylunio, yn yr ysgol ac yn ddiweddarach, yn cynnwys y ffordd y mae arfer yn meithrin y gallu i ddefnyddio deunyddiau a thechnegau mewn ffordd ddeallus, ddychmygus, synhwyrus ac arbrofol er mwyn ymateb i wrthrychau a syniadau mewn ffordd greadigol drwy arteffactau ag arwyddocâd personol y gellir eu cyfleu i eraill. Mae astudiaethau beirniadol a chyd-destunol yn hyrwyddo'r defnydd o syniadau, delweddau a thestun fel ffordd o gwestiynu barn a roddwyd er mwyn

---

[1] Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon , 'Creative Industries Economic Estimates January 2015 - Key Findings'.

llywio gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae celf a dylunio yn gweithio a sut y caiff ei werthfawrogi mewn gwahanol ddiwylliannau, cymdeithasau a chyfnodau.



Mae'r rhesymegau anghynhenid dros addysg celf a dylunio yn pwysleisio, ynghyd â phynciau eraill, y gall feithrin ffordd ragweithiol a chreadigol o feddwl a gweithredu, sensitifrwydd tuag at wahaniaethau o ran dulliau gweithredu a chanlyniadau, y gallu i ddefnyddio geirfa arbenigol yn effeithiol o fewn mathau eraill o gyfathrebu, a barn eang o ran ystyr diwylliant. Drwy roi pwyslais ar wahaniaeth, lluosogrwydd ac annibyniaeth meddwl, gall y pwnc helpu i ddatblygu buddiannau unigol a chymdeithasol ehangach megis goddefgarwch rhyngbersonol, empathi ac ymwybyddiaeth, er enghraifft, mewn perthynas â rhywedd, ethnigrwydd, diwylliant, gallu ac oedran. Gall helpu i feithrin dealltwriaeth hyblyg o werthoedd gwahanol mewn cymdeithasau amlddiwylliannol, amlhiliol ac aml-ethnig. Mae'n hyrwyddo'r gallu i chwilio am atebion creadigol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, arferion hyddysg o ran cyfateb tystiolaeth a dod i gasgliadau, y gallu i ddysgu drosoch chi eich hun a chymhwyso gwerthoedd ystyrlon at yr amgylchedd diwylliannol a'r amgylchedd naturiol. At hynny, gall roi ffynhonnell o foddhad gydol oes, diddordeb gwerth chweil ac, o bosibl, yrfa foddhaus i fyfyrwyr. Mae celf a dylunio hefyd yn cyfrannu at y broses o feithrin sgiliau allweddol a gaiff eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr. Gellir trefnu'r sgiliau hyn yn bedwar categori bras:

- **Ffyrdd o feddwl:** creadigrwydd, meddwl yn feirniadol, datrys problemau, gwneud penderfyniadau a dysgu;
- **Ffyrdd o weithio:** cyfathrebu a chydweithio;
- **Adnoddau ar gyfer gweithio:** technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a llythrennedd gwybodaeth;
- **Sgiliau ar gyfer byw yn y byd:** dinasyddiaeth, bywyd a gyrfa, a chyfrifoldeb personol a chymdeithasol[2].

Gall rhaglenni addysg celf a dylunio wedi'u cynllunio'n dda gyfrannu'n gadarnhaol at feithrin yr holl briodweddau hyn.

Yn y llyfr a ysgrifennwyd ganddo yn 2002, *The Arts and the Creation of Mind,* mae Elliot Eisner yn crynhoi'r dadleuon o ran yr elfennau penodol y gall y celfyddydau eu haddysgu. Mae'n dadlau eu bod yn addysgu plant sut I lunio barn fanwl a chynnil ac i roi sylw i gydberthnasau ansoddol - ym maes y celfyddydau, barn sy'n bwysig yn hytrach na rheolau. Mae'n trafod syniad John Dewey o 'bennu pwrpas hyblyg' - y gallu i newid cyfeiriad a dangos parodrwydd i ildio i'r posibiliadau annisgwyl sy'n gysylltiedig â darn o waith wrth iddo ddatblygu; anaml y ceir pwrpasau cadarn o fewn ffurfiau cymhleth o ddatrys problemau, yn hytrach maent yn newid yn unol ag amgylchiadau a chyfleoedd. Mae'n ysgrifennu am ddefnyddio deunyddiau fel cyfrwng; y gallu i feddwl drwy ddeunydd ac o fewn deunydd gan fod pob ffurf ar gelf yn defnyddio rhyw ffordd o droi delweddau'n realiti. Mae'r celfyddydau yn addysgu plant i lywio ffurfiau er mwyn creu cynnwys mynegiannol, gan eu galluogi i gael profiadau na allant eu cael o unrhyw ffynhonnell arall a thrwy brofiadau o'r fath, i ddarganfod ystod ac amrywiaeth y teimladau y gallant eu profi. Mae'n nodi mai un o nodweddion pwysig y celfyddydau yw'r ffordd y maent yn rhoi caniatâd ac anogaeth i ddefnyddio'r dychymyg fel

ffynhonnell cynnwys. Mae'n sôn am ddysgu i fframio'r byd o safbwynt esthetig; mae'r celfyddydau yn dathlu sawl safbwynt gwahanol - mae sawl ffordd o weld y byd a'i ddehongli. Mae Eisner yn tynnu ein sylw at y ffordd y gall y celfyddydau feithrin gallu i drawsnewid ansawdd profiad i ddeunydd llafar a thestun.

Pan wahoddir y plant i ddatgelu pa ddarn o waith celf sy'n eu helpu i deimlo, rhaid iddynt ddefnyddio eu galluoedd barddol i ddod o hyd i'r geiriau addas.

Yr her i athrawon celf a dylunio yw defnyddio'r cyfoeth arbennig hwn o gyfleoedd i sicrhau bod y pwnc yn berthnasol i anghenion a diddordebau myfyrwyr yr oes sydd ohoni ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae'r fanyleb hon yn anelu at helpu i gyflawni'r nod pwysig iawn hwnnw.

---

[2] ATC21S. 2013. 'Assessment and Teaching of 21st Century Skills'. Cyrchwyd http://www.atc21s.org

## Cefnogi addysgu a dysgu da mewn Celf a Dylunio



Mae'n bwysig rhoi'r cyfle i athrawon feithrin dealltwriaeth glir a chadarn o'r egwyddorion sy'n sail i'r broses o ddylunio'r system asesu a bwriadau'r unigolion a'i dyluniodd. Yn y bôn, datblygwyd y fanyleb TGAU newydd er mwyn hwyluso dulliau addysgu a dysgu ardderchog mewn celf a dylunio mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft:

- Mae strwythur y fanyleb yn rhoi cyfle i fyfyrwyr feithrin sail eang o sgiliau beirniadol, ymarferol a damcaniaethol integredig gyda dealltwriaeth gyfannol o amrywiaeth o arferion a chyd-destunau celf, crefft a dylunio. Mae hyn yn darparu sail gadarn ar gyfer gwneud cynnydd drwy'r cwrs ac, i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny, i barhau i astudio ar gyfer TAG UG a Safon Uwch a thu hwnt.

- Mae'r fanyleb yn anelu at ddarparu profiadau heriol, boddhaus i bob myfyriwr
– waeth bynnag y teitl y maent yn dewis ei ddilyn.

- Mae Portffolio ac Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol y fanyleb wedi'u cynllunio er mwyn galluogi'r myfyrwyr i ymchwilio ac i ddatblygu ymatebion ag arwyddocâd personol iddynt ac sy'n gymhellol ac yn berthnasol i'w diddordebau. Dylai eu prosesau gwaith a deilliannau eu hastudiaethau greu tystiolaeth ddilys ar gyfer asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol drwy ddull gweithredu integredig a chyfannol sy'n nodweddu addysgu a dysgu da mewn celf a dylunio.

- Mae hefyd yn darparu fframwaith i'r myfyrwyr ymchwilio i faterion moesol, moesegol, cymdeithasol, diwylliannol a chyfoes fel y maent yn berthnasol i gelf a dylunio ac i'r cwricwlwm ehangach. Er enghraifft, wrth ymdrin ag Amcan Asesu 1 (AA1), gallai myfyrwyr ystyried sut y mae ffactorau moesegol, cymdeithasol a diwylliannol yn dylanwadu ar eu gwaith hwy ac ar waith eraill, a thrwy hynny, eu galluogi i osod eu gwaith o fewn cyd-destun digon eang.

- Mae'r fanyleb yn cefnogi athrawon i ddod yn ymarferwyr myfyriol drwy eu hannog i werthuso eu dulliau gweithredu cyfredol yn barhaus drwy ddarparu pwyntiau cyfeirio deallusol ac ymarferol sy'n ystyried y defnyddiwr, y gellir eu defnyddio i adolygu, gwerthuso a gwella'r addysgu a'r dysgu.

- Mae'r fanyleb yn anelu at godi'r safonau a gyflawnir yn y sector pwysig hwn o'r cwricwlwm ysgolion, sydd eisoes yn uchel, ymhellach fyth.





## Beth yw'r gwahaniaethau rhwng yr hen fanyleb a'r fanyleb newydd?

Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg cryno o'r newidiadau a gynhwyswyd yn y fanyleb newydd. Mae rhai o'r newidiadau hyn yn gydnaws â gofynion y Rheoleiddwyr, ac yn berthnasol i bob sefydliad dyfarnu. Mae eraill yn cynrychioli mireiniadau a gyflwynwyd gan CBAC mewn ymateb i adborth ar fanyleb bresennol CBAC gan athrawon a rhanddeiliaid eraill.

| Beth sydd wedi newid? | Beth sydd yr un fath? |
| --- | --- |
| **Newid bach i'r iaith** - mae enwau'r unedau wedi newid ychydig.<br>Cyfeirir at Bortffolio'r Ymgeisydd bellach fel y **Portffolio.**<br>Cyfeirir at y dasg a gaiff ei gosod yn allanol bellach fel yr **Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**. | Dim newidiadau i'r strwythur asesu.<br>Mae'r **marciau** ar gyfer yr unedau **yn gyfarwydd o hyd:**<br>• Uchafswm o **120** o farciau ar gyfer y **Portffolio**<br>• Uchafswm o **80** o farciau ar gyfer yr **Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**<br>**Mae'r TGAU newydd yn parhau'n llinellol (cynhelir asesiadau yn ystod blwyddyn olaf y cwrs).**<br>**Cadwyd pwysoliadau'r unedau**<br>**60% = Portffolio**<br>**40% = Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.** |
| Ni ddefnyddir y term '**ardystiad**' mwyach a mabwysiadwyd y term '**teitl**' yn lle hynny. Mae **Ffotograffiaeth** yn disodli **Ffotograffiaeth, Lens a Chyfryngau yn seiliedig ar Olau**.<br><br>Cyfeirir at yr opsiwn '**Celf a dylunio**' bellach fel '**Celf, crefft a dylunio**'. Gweler 'Crynodeb o'r Teitlau' *(Manyleb tud 10 - 13).* | Mae **saith opsiwn o ran teitl** yn rhoi cyfleoedd i adrannau lunio cyrsiau sy'n addas ar gyfer eu cyfarpar, eu hadnoddau, eu harbenigedd a'u cyllidebau. |
| Mae'r teitl '**Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio)**' *(Manyleb tud 15-18)* **yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr greu gwaith sy'n gysylltiedig ag o leiaf dau o'r teitlau eraill**. Mae'r pwyslais ar ymagwedd *eang* sy'n gymesur o ran galw â *dyfnder* y dysgu sydd ei angen yn y teitlau eraill. | Dylid pwysleisio nad yw'r teitl 'Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio)' yr un fath â'r teitl 'Celf a Dylunio (anardystiedig)' blaenorol na'r teitl Celfyddyd Gain newydd. |
| **Nid yw'r opsiwn cymhwysol ar gael mwyach** yn y gyfres o deitlau. Felly, **ni fydd y briffiau gweledol ac ysgrifenedig cymhwysol penodol** ar gael yn y papur tasgau wedi'u gosod yn allanol presennol **ar gael yn y papur Aseiniadau wedi'u Gosod yn Allanol newydd**. | Cadwyd fformat agored y papur wedi'i osod yn allanol, gan **ychwanegu opsiwn briff dylunio ar draws pob aseiniad**. Gan fod llawer o athrawon o'r farn y gall eu myfyrwyr ymgysylltu â dulliau gweithredu senarios gwaith neu gleientiaid, mae'r papur aseiniadau newydd yn sicrhau **y gall athrawon a/neu fyfyrwyr barhau i lunio briff mewn ymateb i *unrhyw* aseiniad.** |

| Beth sydd wedi newid? | Beth sydd yr un fath? |
|---|---|
| **Diweddarwyd cynnwys y pwnc** i adlewyrchu arfer cyfredol ac er mwyn sicrhau cysondeb â chyrsiau i israddedigion. **Dilëwyd termau megis 'cyfryngau newydd'.** | Er bod cynnwys y pwnc wedi'i ddiweddaru mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid, bydd yn parhau'n gymharol gyfarwydd. Gwnaed y newidiadau er mwyn adlewyrchu arfer creadigol ac iaith gyfredol yn well. |
| Mae'r **papur Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol** newydd yn apelio i'r llygad ac yn hygyrch. Mae'n cynnig:<br>• **5 thema**<br>• **5 aseiniad gweledol**<br>• **5 briff ysgrifenedig**<br>**Mae'r papur bellach yn cynnwys rhestr o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a allai fod yn ddefnyddiol i'r myfyrwyr fel mannau cychwyn ar gyfer gwaith ymchwil.** (Gweler Deunyddiau Asesu Enghreifftiol tud *16*). | Mewn ymateb i adborth gan athrawon, **gostyngwyd nifer yr aseiniadau i 15**. Fel yn yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol blaenorol, mae'r papur yn agored ac mae'n galluogi myfyrwyr i ymateb i fannau cychwyn o unrhyw un o'r teitlau. |
| Pwysleisir **pwysigrwydd lluniadu**, wedi'i ddefnyddio yn ei ystyr ehangaf fel dull cofnodi a ffordd o archwilio iaith weledol, yn y cynnwys pwnc newydd. Ym mhob teitl, rhaid i fyfyrwyr ddangos tystiolaeth o luniadu o fewn Uned 1 ac Uned 2. (Gweler Atodiad A y Fanyleb 'Lluniadu' tud *40*). | Fel yn y fanyleb flaenorol, **anogir lluniadu a chaiff ei bwysleisio fel proses ddylunio a / neu gyfrwng iaith weledol sylfaenol, na chaiff ei asesu ar wahân.** |
| Mae **anodi/ysgrifennu** gan **ddefnyddio geirfa arbenigol bellach yn ofynnol ym mhob manyleb TGAU Celf a Dylunio** (Gweler Manyleb tud 8). Fe'i cynlluniwyd i integreiddio ag ymchwiliadau ymarferol a chyd-destunol myfyrwyr. Nid yw anodi yn ymwneud yn benodol ag unrhyw Amcan Asesu, ond caiff ei **asesu'n gyfannol** ar draws y prosesau creadigol, ymchwiliol y mae'r myfyrwyr yn eu hastudio.<br>Fel yr eglurwyd yn y **'Nodyn ar ysgrifennu'**, gall anodi neu ffurfiau mwy estynedig ar ysgrifennu fod yn berthnasol i unrhyw un o'r Amcanion Asesu neu bob un ohonynt. | Mae'r elfen ysgrifenedig yn gyson â dull gweithredu'r Portffolio blaenorol ac EST2 i raddau helaeth. Dylai ymatebion ysgrifenedig ac ymarferol gael eu hintegreiddio'n bwrpasol, dylent ategu ei gilydd, a chânt eu **hasesu'n gyfannol**. |

| Beth sydd wedi newid? | Beth sydd yr un fath? |
|---|---|
| Dylid cwblhau gwaith papur dilysu a gwerthuso newydd - **Fy Natganiad Creadigol** - a'i gyd-lofnodi ar gyfer pob uned. Mae hyn yn helpu'r cymedrolwr i ddeall gwaith a phrosesau meddwl y myfyriwr ac yn helpu myfyrwyr i gynllunio. (Deunyddiau Asesu Enghreifftiol tud *36*) | Disodlwyd ac ehangwyd y **ddogfen 'Fy Mwriadau'**.<br>Mae'r elfennau ysgrifenedig o fewn **y Portffolio ac ESA** yn parhau i gael eu hasesu'n gyfannol ac maent yn parhau'n gydnaws â'r dull gweithredu ym manyleb flaenorol CBAC. |
| **Gwnaed newidiadau bach i'r amcanion asesu**<br><br>Fe'u **symleiddiwyd** a'u gwneud yn **fwy cryno**, ond gan gadw eu hystyr blaenorol a chyfleu'r elfennau integredig sy'n rhan o'r broses neu'r cylch creadigol parhaus. *(Gweler Manyleb tud 31)* a 'Cynnwys Dangosol' Manyleb tud *46-59)*. | Mae'r amcanion asesu a'r meini prawf asesu newydd yn debyg i'r rhai presennol, ond cawsant eu hegluro a'u gwella.<br>Ceir **4 amcan asesu cyfarwydd** gyda **phwysoliadau cyfwerth**, fel y ceid yn y fanyleb bresennol.<br>Darperir y **penawdau amcanion asesu** isod er mwyn helpu athrawon a myfyrwyr:<br>**AA1 Dealltwriaeth feirniadol**<br>**AA2 Gwneud creadigol**<br>**AA3 Cofnodi myfyriol**<br>**AA4 Cyflwyniad personol** |
| **Newid dyddiad allweddol** i'r dyddiad cau ym mis Mai ar gyfer cyflwyno marciau wedi'u hasesu'n fewnol i CBAC.<br>Y **dyddiad cyflwyno newydd yw 31 Mai** - estyniad defnyddiol o'r dyddiad blaenorol, sef 15 Mai.<br>Mae hyn yn gyson â'r dyddiad cyflwyno ar gyfer TAG ac yn lleihau'r baich gweinyddol. | Bydd y trefniadau ar gyfer ymweliadau gan safonwyr yn parhau.<br>Mae'r trefniadau gweinyddol a'r trefniadau ar gyfer cofrestru, safoni, dyfarnu a chanlyniadau yn gyffredinol yr un fath â'r fanyleb flaenorol. *(Cyfeiriwch at Lyfryn Gweinyddu TGAU Celf a Dylunio CBAC ar-lein. Ar gael o fis Medi 2016).*<br>Cynhelir y broses safoni ym mis Mehefin. |
| Ceir **pwyslais newydd** ar greu cysylltiadau â'r diwydiannau creadigol hynny sy'n berthnasol i bob teitl, er enghraifft drwy nodi **cyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd posibl** a gwaith **artistiaid, crefftwyr a dylunwyr cyfoes** yn y **cynnwys dangosol** (Gweler *manyleb, Atodiad C, tud 46-59*). | Lle y cyfeirir at yrfaoedd neu artistiaid, crefftwyr a dylunwyr penodol, dim ond at ddibenion enghreifftiol ac er mwyn bod o gymorth y gwneir hyn: nid awgrymir unrhyw beth gorfodol. |

## Beth sy'n greiddiol i'r fanyleb newydd a beth yw ei rhannau mwyaf hanfodol?

Mae'r pedwar Amcan Asesu yn greiddiol i'r fanyleb newydd: AA1 Dealltwriaeth feirniadol; AA2 Gwneud creadigol; AA3 Cofnodi myfyriol; ac AA4 Cyflwyniad personol. Mae'r teitlau yn nodi eu prif ddiben. Dim ond ychydig bach o wahaniaeth sydd rhyngddynt ag Amcanion Asesu blaenorol CBAC, gan awgrymu eu bod yn parhau'n addas. Mae'n werth ailystyried dyfnder ac ehangder ystyr yr amcanion yn fanwl, gan mai dyma'r sail ar gyfer datblygu'r addysgu, y dysgu, a'r trefniadau gwerthuso ac asesu ffurfiannol a chrynodol. Yr Amcanion Asesu yw niwclews elfennau canolog y fanyleb newydd, sef:

- Rhestr Wirio Amcanion Asesu i Fyfyrwyr;
- Canllawiau TGAU ar gyfer Cynnwys Dangosol ar gyfer pob un o'r 7 teitl;
- Cynlluniau Marcio ar gyfer pob uned.

## Mynd i'r afael â'r Amcanion Asesu

Beth yw'r gwahaniaethau rhwng yr Amcanion Asesu etifeddol a'r Amcanion Asesu newydd?

| | Etifeddol | Newydd |
|---|---|---|
| AA1 | Datblygu eu syniadau drwy ymchwiliadau wedi'u llywio gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan arddangos dealltwriaeth ddadansoddol a diwylliannol. | Datblygu syniadau drwy ymchwiliadau, gan arddangos dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau. |
| AA2 | Mireinio eu syniadau drwy arbrofi gydag adnoddau, cyfryngau, deunyddiau, technegau a phrosesau priodol, a'u dewis. | Mireinio gwaith drwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi â chyfryngau, deunyddiau, technegau a phrosesau priodol. |
| AA3 | Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau ar ffurfiau gweledol a/neu ffurfiau eraill. | Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. |
| AA4 | Cyflwyno ymateb personol, gwybodus ac ystyrlon gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol, gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig a llafar neu elfennau eraill. | Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn arddangos dealltwriaeth o iaith weledol. |

## AA1 Dealltwriaeth feirniadol

Mae'r Amcan Asesu diwygiedig hwn bellach yn darllen '*Datblygu syniadau drwy ymchwiliadau, gan arddangos dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau*'.

Mae ffynonellau yn cynnwys arteffactau, delweddau, dogfennau a chyfeiriadau, o'r oes sydd ohoni ac o oesoedd blaenorol, sy'n gwella dealltwriaeth ac yn cynyddu gwybodaeth am gelf a dylunio ac yn darparu ysbrydoliaeth ar gyfer datblygu syniadau newydd. Gellir edrych ar y ffynonellau hyn drwy amrywiaeth o gyd-destunau - hanesyddol, cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol a chrefyddol, er enghraifft. Felly, gellir diffinio cyd-destun fel yr amodau cydberthynol y mae darn o waith celf, crefft neu ddylunio yn bodoli neu'n digwydd o'u mewn. O dro i dro defnyddir cymhwyso gwybodaeth i esbonio 'dealltwriaeth'. Mae'n cael ei ddiffinio hefyd fel gafael neu amgyffrediad meddyliol neu ddeallusol, h.y. gweld arwyddocâd neu ystyr rhywbeth.

Disgwylir i fyfyrwyr allu adnabod bod gweithiau celf, crefft a dylunio wedi'u llunio at lawer o wahanol ddibenion neu fwriadau mewn gwahanol oesoedd a diwylliannau a bod y rhain, yn eu tro, yn dylanwadu ar yr ystyron a'r dehongliadau sy'n gysylltiedig â hwy.

Mae angen i fyfyrwyr hefyd fod yn ymwybodol o ddiben bwriadedig eu gwaith eu hunain a gallu cyfleu ystyr a diben y dulliau a'r ymagweddau y maent yn eu defnyddio eu hunain.

Yn ogystal, rhaid iddynt allu dadansoddi a gwerthuso dulliau ac ymagweddau eraill yn feirniadol a chyfathrebu eu canfyddiadau yn glir. Mae'n hanfodol bod y dadansoddiad a'r gwerthusiad o'u gwaith eu hunain ac o waith eraill yn ategu ei gilydd fel bod un yn llywio'r llall.
Dylai'r ddogfen newydd 'Fy Natganiad Creadigol', y mae'n rhaid ei chyflwyno gyda phob uned a asesir, helpu myfyrwyr i ganolbwyntio ar y gofynion hyn.

Er mwyn ystyried dulliau ac ymagweddau artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, bydd myfyrwyr yn ymchwilio i enghreifftiau hanesyddol a gallant ymchwilio i ffynonellau cyfoes sy'n cynnwys ymarferwyr sy'n dilyn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â'r amrywiol deitlau yn y fanyleb hon.

Gellir eu rhestru fel a ganlyn:

### *Celf, Crefft a Dylunio*

Gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig â'r holl deitlau arbenigol, Celfyddyd Gain, Cyfathrebu Graffig, Dylunio Tecstilau, Dylunio Tri Dimensiwn neu Ffotograffiaeth a meysydd astudio sy'n berthnasol i'r rhain.

### *Celfyddyd Gain*

Gall y rheini sy'n ymchwilio i arfer celfyddyd gain cyfoes astudio ymarferwyr sy'n gweithio ym maes ffilm, cyhoeddi, gweinyddu'r celfyddydau, amgueddfeydd ac orielau, celfyddydau cymunedol ac addysgu, a llawer o alwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r teitl hwn, yn ogystal ag artistiaid cain cyfredol.

### *Cyfathrebu Graffig*

Gall hyn gynnwys ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd megis darlunio cyffredinol, teipograffeg, hunaniaeth gorfforaethol ac ymgynghori ar frandio, graffeg gwybodaeth, delweddaeth wedi'i chynhyrchu gan gyfrifiadur, animeiddio 2D, modelu 3D, dylunio ar gyfer dysgu, technoleg print, dylunio gwe, a gemau teledu, fideo a chyfrifiadur.

### *Dylunio Tecstilau*

Gall myfyrwyr ystyried ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau cysylltiedig megis dylunydd tecstilau, prynwr tecstilau, dylunydd ffasiwn, proffwydi ffasiwn, dylunydd gweuwaith, hetiwr, newyddiadurwr ffasiwn, ymgynghorydd lliw, dylunydd gwisgoedd theatraidd, darlunydd ffasiwn, torrwr patrymau a dylunydd-gwneuthurwr.

### *Dylunio Tri Dimensiwn*

Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o arfer cyfoes, gan gynnwys galwedigaethau megis dylunydd diwydiannol/cynhyrchion, dylunydd theatr, dylunydd teledu a ffilm, dylunydd arddangosfeydd, dylunydd defnyddiau pacio/pecynnau, dylunydd dodrefn, dylunydd mewnol, ceramegydd, gwneuthurwr modelau pensaernïol, gof arian a gemydd.

### *Ffotograffiaeth*

Mae galwedigaethau o fewn arfer ffotograffig cyfoes yn cynnwys meysydd megis hysbysebu, ffotonewyddiaduraeth, ffasiwn, bywyd gwyllt, ffotograffiaeth ddiwydiannol a thechnegol, stiwdios ffotograffiaeth ar y stryd fawr, a ffilm, teledu a fideo.

### *Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol*

Er mwyn ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau megis curaduriaid neu gadwraethwyr mewn orielau, amgueddfeydd a chanolfannau'r celfyddydau, yn ogystal â newyddiadurwyr, athrawon ac academyddion.

### Esbonio 'sgiliau dadansoddi' a 'dealltwriaeth feirniadol'.

Mae'r Amcan Asesu hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddangos dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol o waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a ffynonellau eraill. Nid yw'r sgiliau hyn yn unigryw i gelf a dylunio ac mae'n aml yn ddefnyddiol cyd-drafod â chydweithwyr yn yr ystafell athrawon er mwyn canfod sut y cânt eu meithrin mewn meysydd pwnc eraill. Drwy hyn, gellid hefyd feithrin cysylltiadau gwell a mwy cynhyrchiol ar draws agweddau dysgu cysylltiedig.

Mae gofyn cael sgiliau dadansoddi er mwyn adnabod perthnasoedd ac ymchwilio i rannau cyfansoddol gweithiau o gelf, crefft a dylunio. Gall hyn, er enghraifft, gynnwys cymharu a chyferbynnu'r ffordd mae elfennau gweledol golau, lliw, gweadedd a chyfansoddiad wedi'u defnyddio gan wahanol artistiaid, ffotograffwyr, crefftwyr a dylunwyr at yr un diben neu at ddibenion gwahanol. Mae Tony Dyson[3] yn cynnig chwe math o gymhariaeth:

- Gwrthrychau celf [a dylunio]/gwrthrychau bob dydd;
- Gwrthrychau celf [a dylunio] gwahanol â'r un deunydd pwnc;
- Gwaith myfyrwyr eu hunain/gwrthrychau celf [a dylunio] priodol;
- Arteffactau o wahanol gyfnodau;
- Gwrthrychau, testunau ac ati o'r un cyfnod;
- Gwrthrychau celf [a dylunio] o ysgol neu gyfnod penodol.

Mae dulliau eraill yn cynnwys defnyddio dull 'Cynnwys', 'Ffurf', 'Proses' a 'Naws' Rod Taylor[4] ; Tacsonomeg Bloom: 'Disgrifio', 'Dadansoddi', 'Dehongli', 'Gwerthuso' a 'Dylanwadu'; fersiynau mwy diweddar o'r tacsonomeg hwn megis 'Cofio', 'Deall', 'Cymhwyso', 'Dadansoddi', 'Gwerthuso' a 'Chreu'[5]; a 'Cymdeithasol', 'Gwleidyddol', 'Addysgol', 'Artistig' a 'Chrefyddol' (SPEAR). Gall cyfeirio at y modelau a ddefnyddiwyd, er enghraifft mewn adrannau Saesneg a Hanes, hefyd fod yn ddefnyddiol.

Mae myfyrwyr yn meithrin sgiliau beirniadol er mwyn gallu ymdreiddio'n ddyfnach dan groen y pwnc y maent yn ei astudio. Mae gwaith dadansoddi beirniadol da yn golygu y gellir defnyddio syniadau, delweddau a thestun fel ffordd o gwestiynu barn a gyflwynwyd er mwyn llunio gwybodaeth a dealltwriaeth yn seiliedig ar ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae celf a dylunio yn gweithio a sut y caiff ei werthfawrogi mewn gwahanol ddiwylliannau, cymdeithasau a chyfnodau. Mae'n gofyn cwestiynau megis: 'Pwy?', 'Pam?', 'Ble?', 'Pryd?', 'Sut?'

3 Dyfynnwyd yn *Learning to Teach Art and Design in the Secondary School*, Addison N a Burgess L (Golygyddion) (Ail argraffiad 2007). Routledge: Llundain ac Efrog Newydd. tud 62.

4 Taylor, R (1986) *Educating for Art,* Longman: Harlow.

5 Anderson, L a Krothwohl, D (golygyddion) (2001) *et al* 'A taxonomy for teaching, learning and assessing', Efrog Newydd: Longman.

Wrth gwrs, nid yw sgiliau meddwl beirniadol o'r fath wedi'u cyfyngu i gelf a dylunio; gellir eu cymhwyso'n llawer ehangach. Mae addysg celf a dylunio yn annog y gallu i feddwl yn annibynnol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr:

- fod yn ymwybodol o'r rhesymau dros yr hyn y maent yn ei feddwl a'r hyn y maent yn ei wneud;
- cwestiynu a gwerthuso'n feirniadol eu meddyliau a'u gweithredoedd eu hunain;
- cyflwyno'n eglur i bobl eraill y rhesymau dros eu meddyliau a'u gweithredoedd.

Mae'r ddogfen newydd a gynlluniwyd **'Fy Natganiad Creadigol'** yn cynnig ffordd ddefnyddiol i fyfyrwyr gyflwyno tystiolaeth o'u sgiliau beirniadol ar draws pob un o'r unedau asesu. Mae'r gofyniad anodi a/neu ysgrifennu mwy estynedig hefyd yn golygu y gellir cyflwyno ymateb manwl o safon uchel.

Er bod meddwl yn feirniadol a ffordd o feddwl resymegol yn sgiliau pwysig i'w meithrin, mae'r sgiliau creadigol hynny a all ofyn am reddf, ffordd o feddwl heb gyfarwyddyd a phrosesau meddwl diarwybod yr un mor bwysig.

### Beth y dylid ei annog neu ei osgoi wrth ddatblygu ymatebion i AA1?

- Dylech annog myfyrwyr i achub ar bob cyfle i ddefnyddio ffynonellau cyd-destunol sylfaenol, yn enwedig y rheini y mae'n haws teithio iddynt, er mwyn gallu dychwelyd yno eto - yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth a syniadau o ffynonellau eilaidd yn bennaf.
- Rhaid i fyfyrwyr ddewis a dethol cyfeirnodau cyd-destunol. Rhaid iddynt fod yn gwbl berthnasol i'w hastudiaeth bersonol er mwyn gallu llywio datblygiadau ymarferol go iawn. Llyfr braslunio artist sy'n defnyddio ffynonellau cyd-destunol i lywio dull gweithredu'r artist
- Fel arfer, mae'n well canolbwyntio ar y ffynonellau cyfeirio mwyaf perthnasol a'u hastudio'n fanwl yn hytrach nag amrywiaeth sylweddol o ffynonellau gan ddim ond eu deall yn rhannol neu ddim o gwbl.
- Rhaid i ddealltwriaeth o'r cyd-destun *lywio* datblygiadau creadigol personol yn hytrach na *phennu* datblygiadau creadigol personol. Dylech felly fod yn gwbl glir am ddefnyddio a chamddefnyddio copïo, parodi, pastiche a thrawsgrifiadau.
- Dylid annog y myfyrwyr i ymweld ag orielau, amgueddfeydd ac adnoddau eraill yn annibynnol er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd ag ymgysylltu â chyfeiriadau gwreiddiol drostynt eu hunain. Mae trafodaethau grŵp wedi'u strwythuro a beirniadaethau o enghreifftiau dethol yn adeiladu hyder o ran mynegi barn bersonol dilys ac yn sail dda ar gyfer dadansoddi a gwerthuso'n ysgrifenedig.

## AA2 Gwneud creadigol

Yn y fanyleb newydd, mae'r Amcan Asesu hwn yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr '*Mireinio gwaith drwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi â chyfryngau, deunyddiau, technegau a phrosesau priodol*'. Gellir diffinio 'arbrofi' fel gweithdrefn betrus neu weithgaredd a gynhelir o dan amodau rheoledig er mwyn profi rhywbeth. Mae'r term 'Archwilio' yn awgrymu

ymdeimlad cadarnach o ddiben, rhywbeth a wneir at ddibenion diagnostig neu ymholiad trylwyr.

## Beth yw creadigrwydd?

Mae diffiniadau dirifedi o greadigrwydd. Diffiniodd adroddiad NACCCE[6] weithgaredd creadigol fel *'Imaginative activity fashioned so as to produce outcomes that are both original and of value'*. Mae Howard Gardner yn awgrymu bod unigolyn creadigol yn '…*a person who regularly solves problems, fashions products, or defines new questions in a domain in a way that is initially considered novel but that ultimately becomes accepted in a particular cultural setting'*.[7] Felly, mae ein barn ar greadigrwydd wedi'i phennu ar sail ddiwylliannol. Nid yw anelu at arloesedd er mwyn arloesedd, na phenderfynoldeb diwyro artist cysyniadol i ddarparu sioc ddigyffelyb o ran gwreiddioldeb, ynddo'i hun o reidrwydd yn ddigon i gael ei nodi fel gweithred greadigol bwrpasol. Diffiniad llaw fer sy'n werth ei ystyried yw bod creadigrwydd yn aml yn 'ffordd o feddwl fentrus'.

## Sut y caiff sgiliau creadigol eu haddysgu?

Mae'r broses o feithrin a chymhwyso sgiliau creadigol, yn enwedig mynegi syniadau mewn ffordd ddychmygus, wedi ymsefydlu ers amser fel un o elfennau canolog addysg celf a dylunio. Mae sgiliau creadigol yn dibynnu ar ddarparu cyd-destunau addas ar gyfer cyflwyno'r sgiliau hynny ac felly mae dulliau addysgu arloesol a heriol a phennu tasgau digon ysgogol yn holl bwysig. Mae angen athrawon creadigol a all gymryd risgiau creadigol ar fyfyrwyr creadigol. Mae'n broses sy'n gyson heriol na ellir ei rhagnodi na'i chopïo.
Nid oes unrhyw lasbrint i'w ddilyn. Weithiau, gall hyn beri problemau gan fod llawer o ysgolion yn osgoi mentro o ystyried y mesurau atebolrwydd cynyddol sy'n eu hwynebu. O ganlyniad, mae rhai athrawon yn anfwriadol yn mabwysiadu dull gweithredu addysgegol penodedig iawn a all, mewn gwirionedd, gyfyngu datblygiad creadigol yn hytrach na'i gyfoethogi. Mae'r fanyleb celf a dylunio hon yn anelu at annog a gwobrwyo creadigrwydd gwirioneddol ar ran myfyrwyr ac athrawon. Mae gan fyfyrwyr ran allweddol i'w chwarae wrth ddewis themâu neu ddeunydd pwnc digon ysbrydoledig i seilio eu hastudiaethau personol arnynt, drwy gyd-drafod â'u hathro.

## Sut y gellir disgrifio gweithgaredd creadigol?

Yn aml, gall gweithgaredd creadigol ddechrau drwy archwilio ffynonellau ysgogol, weithiau gan gymryd syniadau sy'n bodoli eisoes, o bosibl o gyfeiriadau cyd-destunol, a'u cyfuno neu eu hail-ddehongli mewn ffyrdd annisgwyl neu eu cymhwyso mewn meysydd nad ydynt fel arfer yn gysylltiedig â hwy. Gall hyn gynnwys creu cysylltiadau anarferol, dod o hyd i gydweddiadau neu ganfod cydberthnasau rhwng syniadau neu wrthrychau am y tro cyntaf.

Yn gryno, mae unigolion creadigol yn debygol o arddangos amrywiaeth o nodweddion, cymwyseddau a galluoedd sy'n cynnwys y canlynol:

- *Goddefgarwch tuag at amwysedd ac ansicrwydd*
- *Hyblygrwydd a pharodrwydd i fod yn agored i ddulliau gweithredu amgen, yr hyn sy'n ymddangos fel siawns, damweiniau a chamgymeriadau*

6 NACCCE (1999) 'All Our Futures: Creativity, Culture and Education', Yr Adran Addysg a Chyflogaeth, Llundain.

7 Gardner, H (1993) 'Creating minds', Basic Books, Efrog Newydd, tud 35.

- *Yn barod i chwarae gyda syniadau, posibiliadau, deunyddiau neu brosesau*
- *Gallu i ganolbwyntio a dyfalbarhau dros gyfnod o amser, i feddu ar yr egni i barhau i drin a thrafod problem yn hytrach na cheisio ei datrys yn rhy gynnar*
- *Cymryd yr amser sydd ei angen i feithrin technegau a sgiliau priodol yn seiliedig ar y pwnc*
- *Parodrwydd i ystyried syniadau yr ymddengys nad ydynt yn gysylltiedig, i fod yn agored i syniadau gwahanol ac i greu cysylltiadau annhebygol*
- *Yr angerdd, yr hunanymwybyddiaeth a'r dewrder i fwrw ati â syniadau, i feiddio bod yn wahanol*
- *Hyder, yr hunangred i gymryd risgiau deallusol a greddfol*
- *Parodrwydd i gydweithio, gan roi a derbyn adborth* [8]




Nid yw bob amser yn hawdd cynnwys y priodweddau hyn yn yr ystafell ddosbarth. Mae sicrhau cydbwysedd rhwng cymhwyso'r rheolaethau angenrheidiol a gallu 'gadael rhydd' a rhoi rhwydd hynt i'r myfyrwyr ddilyn eu syniadau eu hunain yn her i athrawon.

Mae amser yn bwysau cyson a cheir temtasiwn ar ran athrawon a myfyrwyr i weithredu mewn ffordd ddiogel, i gadw at arferion sefydledig ac i beidio â chymryd gormod o risgiau. Ond ni ellir rhuthro creadigrwydd go iawn na'i droi'n fformiwla: yn aml, ceir cyfnod magu hir cyn y gall syniadau creadigol bob hyn a hyn droi'n ennyd 'Eureka!' prin. Mae angen digon o amser a 'gofod' i feddwl - y mae'r ddau yn aml yn brin mewn ysgolion.  Mae pwysau bob amser i 'fwrw ati' ond dylid cofio bod yn rhaid i gyflymder yr addysgu bob amser gyd-fynd â chyflymder y dysgu: ni fydd addysgu cyflymach o reidrwydd yn arwain at ddysgu cyflymach.

Mae Jonah Lehrer[9] yn cymeradwyo pwysigrwydd amser i freuddwydio a magu syniadau fel ffynhonnell bwysig o greadigrwydd. Mae'n cydnabod y gall hyn fod yn llwybr tuag at ormodedd o gysylltiadau annisgwyl a syniadau rhyfedd. '*Most of these ideas will be useless, of course, just the surreal babble of the dreaming brain. But sometimes, if we're lucky, we'll find our answers in the middle of the night*'. Neu gall y broses fagu a dilysu fod yn broses hirfaith. Noda Milton Glazer nad yw creadigrwydd yn hawdd: '*I think people need to be reminded that creativity is a verb, a very*

---

[8] Steers, J (2013) 'Creativity in schools: delusions, realities and challenges' yn Thomas, K. a Chan, J. (golygyddion) *Handbook of Research on Creativity,* Edward Elgar Publishing: Cheltenham, y DU a Northampton, MA, UDA.

[9] Lehrer, J (2012) 'Imagine: How Creativity Works', Caeredin: Canongate, tud 108.

*time-consuming verb. It's about taking an idea in your head, and transforming that idea into something real. And that's always going to be a long and difficult process. If you're doing it right, it's going to feel like work'* (yn Lehrer 2012. tud 69).

Mae hyn oll yn awgrymu ei bod yn hanfodol caniatáu digon o amser er mwyn i'r wreichionen greadigol ffynnu. Ni ellir dechrau a diffodd creadigrwydd fel tap ac nid yw'r amodau cywir bob amser yn hawdd i'w cyflawni mewn llawer o ysgolion. Mae athrawon yn cydnabod bod y myfyrwyr hynny sy'n cael eu hysgogi gan arfer creadigol yn aml yn treulio oriau o'u hamser eu hunain yn datblygu syniadau - gall ddod yn obsesiwn. Gellir eu beirniadu am esgeuluso 'gwaith academaidd pwysicach'.  Ond mae angen dyfalbarhad ac yn aml ymroddiad penderfynol er mwyn cynhyrchu gwaith o safon.

Mae'r fanyleb hon yn caniatáu digon o amser ar gyfer yr uned gwaith cwrs yn y Portffolio gan alluogi athrawon i feithrin amrywiaeth bwysig (ac o bosibl ddiagnostig) o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'n rhoi digon o amser i arbrofi ac yn galluogi myfyrwyr i ddechrau ar eu 'taith greadigol' eu hunai





**Prosesau creadigol**

Yn aml, cyfeirir at y 'broses greadigol'. Fodd bynnag, nid yw 'proses' o'r fath yn syml ac mae angen ei hystyried yn ofalus. Cynigiodd Dewulf a Baillie[10] ei bod yn cynnwys pedair elfen:

- *Paratoi* – lle caiff y broblem neu'r cwestiwn ei ddiffinio, ei ailffurfio a'i ailddiffinio, gan symud o ddealltwriaeth benodedig i ddealltwriaeth newydd.

- *Cynhyrchu* – symud y tu hwnt i lwybrau arferol o feddwl, cael gwared ar gysyniadau cysylltiol i'r broblem; taflu syniadau.


[10] De Wulfe a Baillie (1999) '*CASE Creativity in art science and engineering: How to foster creativity'.* Llundain: Yr Adran Addysg a Chyflogaeth

- *Magu* - ysgogiad isymwybodol, yn aml yn dilyn cyfnod o ymlacio neu gyfnod lle na roddir cymaint o sylw i'r mater.

- *Dilysu* – lle caiff syniadau eu dadansoddi, eu clystyru a'u gwerthuso, wedi'i ddilyn gan broses o gynllunio'r camau i'w cymryd a'r broses weithredu.

Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio yma nad yw creadigrwydd yn aml yn broses linellol syml.

Mae'r diagram isod yn dangos y rhyngweithio arferol rhwng yr elfennau hyn, gyda'r amrywiol gamau yn cael eu hailystyried a'u hadolygu dro ar ôl tro heb fod mewn unrhyw drefn benodol - er enghraifft, pan na fydd unrhyw atebion amlwg eraill.




Gall pob un o'r camau hyn yn y broses greadigol gyflwyno heriau anodd mewn ysgolion. Ni ddylai'r gwaith paratoi ddibynnu'n llwyr ar yr hyn a ragnodir gan yr athro - weithiau mae'n bosibl mai *peidio* â dilyn cyfarwyddiadau fydd ei angen er mwyn sicrhau deilliant creadigol. Anaml y mae'r broses o gynhyrchu syniadau yn dibynnu ar gymhwyso rhesymeg gaeth ac mae'n bosibl y bydd cyfnod o adael i'r meddwl grwydro neu synfyfyrio yn ddefnyddiol wrth fagu syniadau.

Mae'n werth ystyried p'un a yw'r duedd tuag at 'gelf ysgol' neu feithrin 'arddull mewnol' a gaiff ei beirniadu'n aml yn deillio o or-bryder ar ran rhai athrawon i gyfeirio myfyrwyr tuag at lwybr penodol drwy'r broses greadigol hon - a thrwy hynny atal datblygiad creadigol go iawn?

Mae adolygu a mireinio syniadau wrth i waith ddatblygu yn rhan hanfodol o unrhyw broses greadigol, ond rhaid ymgymryd â'r rhan hon o'r broses mewn ffordd sensitif. Mae angen arfarnu trylwyr er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cydlynus, bod dulliau gweithio yn gysylltiedig â deilliannau, bod deilliannau yn cyfateb i fwriadau ac y caiff cyfryngau priodol o gyflwyno prosesau a deilliannau i gynulleidfa eu llunio. Fodd bynnag, dylai penderfyniad i ohirio barn hefyd fod yn elfen bwysig o'r broses greadigol er mwyn gallu ailystyried ac ail-weithio syniadau. Os eir ati i gynnal arfarniad beirniadol yn y ffordd briodol ar yr adeg briodol, mae'r broses yn hanfodol, ond os gwneir hynny ar yr adeg anghywir, gall fygu syniad addawol.

## Beth y dylid ei ystyried wrth addysgu'r broses gwneud creadigol?

Mae llawer o wahanol ddulliau addysgu, ond gallai fod yn werth nodi'r awgrymiadau canlynol:

- Sicrhewch fod myfyrwyr yn ymwybodol o'r gwahanol gamau o weithgaredd creadigol, a nodir uchod, a'r angen o bryd i'w gilydd i dreulio amser a phellter o weithgaredd dwys er mwyn gallu myfyrio a breuddwydio yn well (fel rhan o AA3 Cofnodi myfyriol).
- Cynllunio ar gyfer tasgau archwiliadol eang a chul, gan sicrhau bod y gweithgareddau bob amser yn cynnwys ymdeimlad cadarn o ddiben.
- Annog mannau cychwyn personol a hunanfynegiant wedi'u cyfeirio at dasg ddethol. Meithrin ymwybyddiaeth o'r gwahanol gyd-destunau y gellir cynhyrchu syniadau gwreiddiol o'u mewn, megis ffynonellau ysgogol a lleoliadau a phrofiadau anghyfarwydd, a'r rhan a chwaraeir gan reddf, prosesau meddwl anymwybodol a ffyrdd o feddwl heb gyfarwyddyd.
- Rhoi pwyslais ar werth chwilfrydedd, cwestiynu, dychymyg, gwreiddioldeb a barn dda. Hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at wneud creadigol - ymdeimlad o gyffro, disgwyliad, parch a rhyfeddod at botensial blaengaredd creadigol.
- Tywys myfyrwyr i gynnal eu cymhwysiad drwy gynllunio camau lle rhoddir cyfle iddynt feddwl mewn ffordd gynhyrchiol, archwilio adnoddau, deunyddiau a phosibiliadau mewn ffordd bwrpasol heb unrhyw werthusiadau beirniadol uniongyrchol. Ar yr adeg briodol, dylid cyflwyno camau gwerthuso beirniadol trylwyr bob hyn a hyn er mwyn profi elfennau penodol. Dylai hyn, yn ei dro, ddarparu sail adeiladol ar gyfer datblygiad pellach.
- Annog myfyrwyr i ddatblygu hunangred yn eu galluoedd, gan hyrwyddo hyder i gymryd risgiau ystyrlon, ystyried bod camgymeriadau yr un mor bwysig â llwyddiant wrth eu helpu i ddysgu, gan gydnabod bod tystiolaeth o'r broses greadigol o leiaf yr un mor bwysig â chynhyrchu deilliannau terfynol.

## Beth arall y dylid ei annog neu ei osgoi wrth ddatblygu ymatebion i AA2?

- Dylech ochel rhag defnyddio dull gweithredu 'techneg bob wythnos'. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu dyfnder digonol o brofiadau ymarferol er mwyn i fyfyrwyr allu gwneud dewisiadau hyddysg ar y naill law a meithrin y sgiliau ymarferol i lunio gwaith o ansawdd, neu feddu ar ymwybyddiaeth o lawer o wahanol gyfryngau a thechnegau ond heb feddu ar gymhwysedd digonol yn yr un ohonynt ar y llall.
- Mae addysgu da yn golygu gwybod pryd y mae'n bryd rhoi'r gorau i weithgareddau penodedig o dan arweiniad yr athro er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr feithrin annibyniaeth

a dulliau gweithredu gwirioneddol bersonol, gan gynnig arweiniad sensitif lle y bo angen. Yn gyffredinol, dylai hyn ddigwydd mor gynnar â phosibl yn y rhaglen ddysgu. Mae'n anodd gwobrwy 'Gwneud creadigol' yn llawn lle ceir tystiolaeth hydreiddiol o ddull gweithredu parhaus o dan gyfarwyddyd yr athro drwy gydol y broses.

- Mae'r Amcanion Asesu yn rhoi cryn bwyslais ar '*brosesau creadigol*' yn hytrach na'r '*cynhyrchion terfynol*' a rhaid i fyfyrwyr fod yn ymwybodol o hyn wrth gynhyrchu tystiolaeth o'u gwahanol alluoedd.

## AA3 Cofnodi myfyriol

Golygwyd yr Amcan Asesu hwn yn y fanyleb newydd er mwyn dileu ymadroddion diangen heb newid ei ystyr. Mae bellach yn darllen '*Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen*'.

Deellir y ferf 'cofnodi' yn gyffredinol fel cofrestru neu nodi'n ysgrifenedig neu ar ffurf ddarllenadwy arall at ddiben cofio neu er mwyn cyfeirio ato'n ddiweddarach. Mae gan 'myfyriol' sawl gwahanol ddiffiniad, a'r mwyaf priodol o'u plith fwy na thebyg yw 'meddylgar', 'penderfynol' neu 'dychwelyd i feddwl', neu 'ymgynghori â chi'ch hun'. Mewn termau addysgol, mae'n uniongyrchol gysylltiedig â dysgu myfyriol.

Yn gyffredinol, mae dulliau cofnodi yn cynnwys defnyddio ysgrifen ar ffurf estynedig neu wedi'i anodi, ffotograffiaeth ac yn arbennig, y mathau nifer o luniadu. Defnyddir y dulliau hyn, fel y bo'n briodol, i gofnodi *syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau* y dylai pob un ohonynt fod yn berthnasol i fwriadau'r myfyriwr. Trafodir y defnydd o luniadu ac ysgrifennu estynedig yn fanwl yn ddiweddarach yn y Canllawiau Addysgu hyn.

Un o ddibenion canolog yr amcan hwn yw y dylai myfyrwyr, wrth ymgymryd â'r broses ymchwilio ac ymholi gweledol a chyffyrddol, gynyddu eu pwerau arsylwi, dod yn weledol graff a datblygu'r gallu i ddirnad natur wirioneddol neu sylfaenol yr hyn y maent yn ei astudio. Dylent ddod yn gymwys wrth ddethol, dehongli a chofnodi'r hyn y maent yn ei wybod, yn ei weld, yn ei deimlo ac yn ei feddwl, gan ddod o hyd i wybodaeth o amrywiaeth eang o adnoddau ac yn arbennig, wrth weithio o waith arsylwi uniongyrchol neu ffynonellau sylfaenol eraill, yn ogystal ag wrth fyfyrio ar brofiad, y cof a'r dychymyg.

Cyfeirir at fwriadau'r myfyriwr yn AA3 ac AA4. Er mwyn llunio safbwyntiau cywir, mae'n hanfodol y caiff bwriadau'r myfyrwyr eu cyfleu mewn ffordd gynhwysfawr a chlir. Gellir diffinio 'bwriadau' fel y 'prif nod neu benderfyniad i weithredu mewn ffordd benodol'. Unwaith eto, mae 'Fy Natganiad Creadigol' yn cynnig cyfle i egluro a chyflwyno bwriadau yn llawn.

Gall dysgu myfyriol gynnwys y canlynol:

- dadansoddi effeithiolrwydd y dysgu drwy gwestiynu a holi;
- meddwl, gyda'r diben o ddyfnhau dealltwriaeth, bod yn feirniadol heb fod yn negyddol;
- llunio sabwyntiau am y profiad dysgu a dod i gasgliadau;
- egluro ystyr a diben yn y gweithgaredd dysgu;
- chwilio am safbwyntiau cymwys a'u mynegi;
- trosglwyddo'r hyn a ddysgwyd i gyd-destun newydd.

Gellir dadlau nad yw'n ddigon dim ond cymryd rhan mewn profiad dysgu gan y gellir ei anghofio'n gyflym ac y gellir colli ei botensial dysgu llawn oni fyfyrir arno. At hynny, gall y meddyliau a'r teimladau sy'n deillio o fyfyrio dros amser arwain at gyffredinoli neu gysyniadau sydd, yn eu tro, yn galluogi'r myfyriwr i fynd i'r afael â sefyllfaoedd newydd mewn ffordd fwy hyderus.

Yn ddelfrydol, dylai myfyrio ddod yn rhan arferol o astudio, gan ychwanegu gwerth at bob profiad dysgu. Nid oes angen iddo fod yn weithgaredd unigol ond gall ddechrau fel trafodaeth rhwng yr athro a'r myfyriwr, gweithgaredd mewn parau neu weithgaredd mewn grwpiau cyfoedion. Fodd bynnag, dylid dogfennu unrhyw drafodaeth o'r fath yn addas er mwyn sicrhau budd parhaus. Gall anodi mewn llyfr braslunio neu lyfr cofnodi fod yn ffordd hynod gyfleus o gadw cofnod o weithgareddau dysgu myfyriol.

### Beth y dylid ei annog neu ei osgoi wrth ddatblygu ymatebion i AA3?

- Mae dewis deunydd pwnc addas ar gyfer cynnal gwaith ymchwil ac ymholi gweledol a chyffyrddol yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant unrhyw un o'r unedau asesu. Os na fydd y pwnc a ddewiswyd yn cymell myfyriwr, nid yw'n debygol o'i gyflwyno mewn ffordd ddiddorol i gynulleidfa. Mae hyn hefyd yn effeithio ar eu hymagwedd tuag at waith ymchwil ac, yn y pen draw, beth y gallant ei gyflawni.
- Er mwyn ennyn diddordeb a chreu mannau cychwyn cynhyrchiol, mae'n well fel arfer dod o hyd i ffynonellau sylfaenol sy'n weledol gyfoethog ac yn anarferol. Yn aml, gellir dod o hyd iddynt o fewn yr amgylchedd lleol, neu ar yr ymylon, ond ni fyddant bob amser yn uniongyrchol weledol i'r cyhoedd. Rhaid rhoi sylw dyledus i ddiogelwch a hygyrchedd.
- Dylid annog y defnydd o gamerâu llonydd a chamerâu fideo digidol o hyd at ddiben recordio gwybodaeth, ond rhaid i fyfyrwyr deimlo y gallant *ymgysylltu* â phwnc eu hymholiad gweledol yn fanwl. Mae hyn fel arfer yn golygu ei bod yn well defnyddio dulliau cofnodi eraill hefyd, megis anodi ac yn arbennig, lluniadu, er mwyn dogfennu canfyddiadau ac olrhain datblygiad eu syniadau ymchwil.
- Ar draws yr amrywiaeth o ddisgyblaethau ac ni waeth pa mor gyfyngedig yw sgiliau lluniadu myfyriwr o bosibl, mae lluniadau, lliw ac astudiaethau gwead o ffynonellau uniongyrchol yn aml yn arwain at rai o'r datblygiadau cryfaf.
- Anaml y mae gorddibyniaeth ar ffynonellau eilaidd at ddibenion cofnodi, megis delweddau o'r Rhyngrwyd, yn arwain at gyflwyniadau llwyddiannus. Fel arfer, mae'n well osgoi gwaith ymchwil yn seiliedig ar ddeunydd pwnc, megis arwyddion y sidydd a chymeriadau ffuglen wyddonol, sy'n ei gwneud hi'n anodd cael gafael ar ffynonellau gweledol a chyd-destunol o ansawdd da.

## AA4 Cyflwyniad personol

Mae'r Amcan Asesu hwn bellach yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr '*Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol*'. Yn y fanyleb newydd, golygwyd AA4 er mwyn osgoi ailadrodd ac mae'r ymadrodd 'dealltwriaeth feirniadol' wedi symud i AA1. Yn y bôn, mae'r Amcan Asesu newydd yn crynhoi'r amcan yn y fanyleb etifeddol. Yn gyffredinol, bydd angen i fyfyrwyr greu cysylltiadau priodol o hyd rhwng elfennau gweledol, elfennau ysgrifenedig, elfennau llafar ac elfennau eraill eu cyflwyniadau.



Mae gan yr ansoddair 'personol' sawl diffiniad, gan gynnwys 'gwnaed gan yr unigolyn heb ymyriad gan unigolyn arall' a 'chyfeirio at gymeriad, ymddygiad, cymhellion unigolyn'. Gall yr enw 'cyflwyniad' gyfeirio at 'y ffordd y caiff rhywbeth ei gyfleu neu ei gyflwyno' neu 'y weithred neu'r broses o gyflwyno rhywbeth'. Gellir diffinio 'ystyrlon' yn syml fel 'meddu ar ystyr neu arwyddocâd' neu, efallai'n fwy priodol, 'llawn mynegiant, yn meddu ar ddiben, gwerth chweil'. Dylai'r ymateb fod yn ystyrlon i unrhyw un sy'n ymgysylltu ag ef ond yn arbennig i'r myfyriwr sy'n ei gyflwyno. Dylai'r cyflwyniad egluro'n llawn sut y gwireddwyd bwriadau'r myfyriwr.

Defnyddir sgiliau cyflwyno ar draws amrywiaeth o bynciau ac nid ydynt yn unigryw i gelf a dylunio. Fe'u gwelir yn aml ym maes addysg uwch ac yn y gweithle, yn enwedig mewn sefydliadau masnachol a sefydliadau hyfforddi. Mewn perthynas â'r fanyleb hon, mae sgiliau dysgu at ddibenion cyflwyno yn cynnwys y canlynol:

- amlygu'r cysylltiadau rhwng gwahanol rannau o'r cyflwyniad;
- cyflwyno gwaith mewn trefn resymegol sy'n hawdd ei dilyn;
- egluro diben a chyd-destun y gwaith, gan ddangos sut y gwireddwyd bwriadau;
- llunio ffurf neu ddull cyflwyno sy'n addas ar gyfer y pwnc a diben y gwaith ac sy'n denu diddordeb cynulleidfa.

### Gwahanol fathau o gyflwyniadau

Gall myfyrwyr ddefnyddio amrywiol ddulliau i gofnodi eu gwaith ar ffurfiau sy'n addas i'r gweithgareddau a gyflawnwyd. Er enghraifft, gallai dogfennu gynnwys defnyddio llyfrau braslunio, technolegau digidol a chasgliadau rhydd o waith a/neu daflenni dylunio. Gellir cofnodi'r dystiolaeth ar ffurfiau gweledol a ffurfiau eraill fel y bo'n briodol. Gall y broses ofyn am ymatebion tri dimensiwn a chynnwys, er enghraifft, cynhyrchu maquettes, neu os yw'r myfyriwr yn gweithio gyda cherameg, yna gall gynhyrchu darnau prawf sy'n arwain at ddeilliant. Gallai'r broses ddogfennu gynnwys gwneud cofnod o osodiad dros dro neu waith safle benodol, o bosibl ar ffurf delweddau llonydd neu symudol.
Mae'r enghreifftiau hyn yn cael eu crybwyll er mwyn dangos ehangder yr ymatebion sydd ar gael i fyfyrwyr, ni fwriedir iddynt fod yn gynhwysfawr nac yn benodol. Gellir cyflwyno'r ddwy

uned ar unrhyw ffurf briodol megis llyfrau braslunio, dyddiaduron gweledol, portffolios traddodiadol neu e-bortffolios, arddangosfeydd wedi'u mowntio, gosodiadau, cyflwyniadau digidol neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Dylai'r rhain gynnwys tystiolaeth o ymateb personol a datblygiad creadigol ynghyd ag un neu fwy o'r deilliannau terfynol. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gynnwys, fformat na maint y gwaith na faint o dystiolaeth i'w dethol a'i chyflwyno, er y dylai'r pwyslais bob amser fod ar yr ansawdd yn hytrach na'r maint.

## Beth y dylid ei annog neu ei osgoi wrth ddatblygu ymatebion i AA4?

- Wrth ddatblygu gwaith cwrs a sawl wythnos cyn cyflwyno'r portffolio ar ei ffurf derfynol, gall fod yn ddefnyddiol i fyfyrwyr wneud cyflwyniad llafar ar eu gwaith, efallai i grŵp cyfoedion a all roi beirniadaeth adeiladol. Dylai hyn dynnu sylw at unrhyw gysylltiadau aneglur neu goll rhwng amrywiol elfennau'r cyflwyniad. O ran aelodau'r gynulleidfa, dylai dynnu sylw at ddiffygion tebyg yn eu gwaith eu hunain.
- Weithiau, gellir gwneud defnydd effeithiol o feddalwedd cyflwyniadol, megis PowerPoint, rhaglenni sain/gweledol neu flogiau a reolir yn fewnol fel dull ategol ar gyfer cyflwyno cyflwyniadau. Gall y rhain fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth helpu myfyrwyr i drefnu a chyflwyno eu gwaith ac ar gyfer ystyried eu llwyddiant wrth fynegi eu bwriadau a'u gwireddu.
- Dylid pwysleisio nad yw AA4 'Cyflwyniad personol' yn un o'r agweddau ar y cyflwyniad y gellir ei adael tan gam olaf y rhaglen ddysgu ond rhaid ystyried yr agwedd hon o'r cychwyn cyntaf.
- Mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod gan yr astudiaeth sail bersonol gadarn sy'n ddiddorol ac yn ystyrlon i'r myfyriwr ac y mae'n awyddus i'w chyfleu i eraill. Weithiau, ystyrir ar gam bod a wnelo'r cyflwyniad personol yn bennaf â deilliannau ond, mewn gwirionedd, mae a wnelo â'r cyflwyniad *cyfan*. Mae'n ymwneud â chyfuno pob rhan unigol ar ffurf gynnal addas, gyda'r un pwyslais ar brosesau creadigol a chynhyrchion y fenter, gan eu cyflwyno ar ffurf sy'n ennyn diddordeb pawb sy'n ei weld.


Er mwyn ymhelaethu ar yr hyn y dylid ei annog neu ei osgoi wrth ymateb i'r Amcanion Asesu ac ystyried strategaethau ar gyfer gwella cyflawniad, gall fod yn ddefnyddiol cyfeirio at Adolygiadau'r Prif Arholwr/Cymedrolwr. Mae'r rhain yn amlygu cryfderau a gwendidau cyflwyniadau celf a dylunio o flynyddoedd blaenorol ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella perfformiad. Cânt eu llunio bob blwyddyn ac maent ar gael ar wefan CBAC.

## Y rhyngberthynas rhwng yr Amcanion Asesu

Er bod y pedwar Amcan Asesu wedi'u diffinio ar wahân, at ddibenion eglurder, wrth addysgu a dysgu maent yn rhyng-gysylltiedig ac yn aml yn gorgyffwrdd. Fodd bynnag, ceir lefel uchel o uniondeb hefyd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau asesu ffurfiannol a chrynodol eu hystyried yn glir, eu bod yn ddilys ac yn ddibynadwy.

## Beth yw'r gydberthynas rhwng yr Amcanion Asesu a phedair elfen hanfodol y fanyleb?

Dylai'r esboniad o'r amcanion asesu a geir uchod bellach ddarparu cysylltiad amlycach â'r elfennau canlynol.




-

**1. Rhestr Wirio Amcanion Asesu i Fyfyrwyr**

Lluniwyd y ddogfen hon er mwyn galluogi myfyrwyr ar draws pob teitl i gadarnhau bod pob rhan o bob un o'r pedwar AA wedi'i hystyried wrth ddatblygu eu gwaith a bod y dystiolaeth briodol wedi'i llunio er mwyn bodloni'r gwahanol feini prawf asesu. Drwy rannu'r AAau yn gyfres o ddatganiadau cryno, gyda rhai ymadroddion yn cynnig arweiniad ychwanegol, bwriedir i'r myfyrwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hastudiaethau ac ymdrin ag unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a ddarperir ganddynt. Dylai hyn hefyd helpu i sicrhau *cwmpas* eang a chytbwys o ran yr hyn sydd ei angen at ddibenion asesu ond nid yw o reidrwydd yn nodi *ansawdd* tystiolaeth o'r fath.

Mae rhai canolfannau yn llunio fersiynau wedi'u haddasu o'r rhestr wirio hon er mwyn symleiddio gofynion AA ymhellach. Unwaith y bydd myfyrwyr wedi meistroli sut i ddefnyddio fersiwn symlach, byddant yn symud ymlaen i ddefnyddio'r ddogfen gyfan. Unwaith eto, gellir defnyddio'r ddogfen hon ar y cyd â'r cynllun marcio perthnasol at ddibenion asesu.

**2. Canllawiau TGAU ar gyfer Cynnwys Dangosol ar gyfer pob un o'r saith teitl sydd ar gael**

Cynlluniwyd y gyfres hon o ganllawiau i'w defnyddio ar wahân ac yn benodol ar gyfer pob un o'r saith teitl sydd ar gael yn y fanyleb newydd. Mae adran gyflwyniadol pob dogfen yn rhoi trosolwg o'r disgyblaethau sy'n gysylltiedig â'r teitl yn ogystal â chynnig gwahaniaethau defnyddiol, megis y gwahaniaeth rhwng Celf, Crefft a Dylunio a Chelfyddyd Gain. Dylid nodi mai'r teitl newydd yn lle'r teitl blaenorol 'Ffotograffiaeth, Lens a Chyfryngau yn seiliedig ar Olau' yw 'Ffotograffiaeth'.

Mae'r term 'Cynnwys Dangosol' yn golygu dangos beth y gellid ei gynnwys mewn cyflwyniad ar gyfer teitl penodol er mwyn bodloni'r gofynion asesu. Nid yw'r cynnwys ar gyfer pob teitl yn gynhwysfawr nac yn benodedig ond, o dan bob teitl (Celf, Crefft a Dylunio, Celfyddyd Gain ac ati), disgwylir i fyfyrwyr ystyried yr agweddau arbenigol y nodir eu manylion o dan bob un o'r pedwar Amcan Asesu. Yn ogystal, cyfeirir at dystiolaeth yn aml nad ymdrinnir â hi'n ddigonol - er enghraifft, y nodyn atgoffa o dan AA2 na ddylid cyflwyno deilliannau terfynol heb dystiolaeth ategol o'r broses greadigol.

Gellir defnyddio'r gyfres hon o ganllawiau at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys disgrifyddion cwrs arbenigol, helpu myfyrwyr i nodi'r cyrsiau sydd fwyaf addas ar gyfer eu diddordebau a'u galluoedd, fel ffynhonnell gyfeirio i athrawon sy'n cynllunio'r dulliau gweithredu ar gyfer yr amrywiol deitlau ac unwaith eto, ar y cyd â'r cynlluniau marcio generig, i helpu wrth gynnal asesiadau ffurfiannol a chrynodol o fewn y teitl y maent yn berthnasol iddo.

**3. Cynlluniau Marcio ar gyfer pob uned**

Mae gan bob uned ei gynllun marcio penodol ei hun sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r pedwar Amcan Asesu ac sy'n generig i bob un o'r saith teitl a gynigir yn y fanyleb. Mae cynlluniau marcio yn cynnwys cyfresi hierarchaidd o ddatganiadau, wedi'u cyflwyno mewn colofnau fertigol sy'n gysylltiedig â'r agweddau gwahanol ar y pedwar AA ac â'r pump band marciau, wedi'u cyflwyno mewn rhesi llorweddol. Ni ddyfernir unrhyw farciau am ymatebion nad ydynt yn haeddu unrhyw gredyd neu na roddwyd cynnig arnynt. Dim ond yn yr ystyr bod pob un wedi'i strwythuro o amgylch yr uchafswm marciau sy'n briodol ar gyfer pob uned y mae'r cynlluniau marcio ar gyfer y Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn wahanol.

Cliciwch i weld y Cynlluniau Marcio ar gyfer TGAU:

- Cynllun marcio'r Portffolio - 120 o farciau
- ’Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol - 80 o farciau

## Crynodeb o'r Trefniadau Asesu ar gyfer TGAU Celf a Dylunio

Mae'r fanyleb newydd yn cynnig sawl llwybr opsiynau ac fe'u trafodir yn fanwl isod. Rhaid i bob un gydymffurfio â'r gofynion asesu ar gyfer y gwahanol unedau. Fe'u crynhoir fel a ganlyn:

| TGAU: dwy uned |
| --- |
| Uned 1<br>• **Portffolio (60% o'r cymhwyster)**<br>• **Wedi'i bennu'n fewnol, wedi'i asesu'n fewnol, wedi'i safoni'n allanol** |
| Uned 2<br>• **Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (40% o'r cymhwyster)**<br>• **Wedi'i asesu'n fewnol, wedi'i safoni'n allanol** |

## Beth yw nodweddion y strwythur cwrs newydd a'r rhesymeg sylfaenol

Cynlluniwyd y fanyleb er mwyn galluogi myfyrwyr yn yr uned Portffolio i gael profiad dysgu dilyniadol a graddol o sail gyflwyniadol eang o gelf, crefft a dylunio yn gysylltiedig â'u dewis opsiwn. I'r rheini sy'n awyddus i barhau i astudio hyd at TAG, UG a Safon Uwch, mae hyn yn cynnig posibiliadau ac awgrymiadau diagnostig hyd at arbenigedd a chyflawniad ar lefel uwch.

Mae strwythur y cwrs yn darparu rhaglen astudio gynhwysfawr a hyblyg. Mae'n cynnwys y nodweddion canlynol:

- caiff gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau eu meithrin mewn ffordd gyfannol a chronnol;
- caiff dysgu beirniadol, ymarferol a damcaniaethol integredig ei hwyluso drwy ymgysylltu'n bwrpasol o fewn fframwaith o gymwysiadau creadigol;
- dylai deunydd pwnc gynnwys arwyddocâd personol, gan hyrwyddo dysgu sy'n cymell yr unigolion ac sy'n gynyddol annibynnol.
-

Mae'r rhesymeg:

- yn cydymffurfio â chynnwys pwnc ac amcanion asesu diffiniedig y rheoleiddwyr;
- yn sail i'r gwaith o ddylunio'r fanyleb hon a'r strategaethau asesu ategol;
- yn adlewyrchu arfer addysg celf a dylunio, addysg uwch ac arfer proffesiynol yn y Deyrnas Unedig;
- yn ennyn cefnogaeth gadarn gan randdeiliaid, gan gynnwys addysg uwch;
- yn darparu model ar gyfer arfer addysg celf Ewropeaidd a rhyngwladol llwyddiannus.

Wrth ddatblygu'r fanyleb hon, ac ar ôl ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid allweddol, daeth dylunwyr y fanyleb yn ymwybodol o'r angen i gynnwys y nodweddion canlynol:

- cyfleoedd ar gyfer dulliau addysgu hyblyg;
- astudiaeth eang o fewn amrywiaeth helaeth o deitlau a luniwyd er mwyn galluogi myfyrwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau penodol;
- annog myfyrwyr i weithio mewn ffordd arbrofol, arloesol, annibynnol a chydweithredol yn ogystal â chymhwyso penderfyniadau creadigol mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n addas ar gyfer eu diddordebau penodol;
- cysylltu gwaith ymholi ymarferol ag astudiaethau beirniadol a chyd-destunol o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol;
- cwmpas eang er mwyn mireinio sgiliau ymarferol, beirniadol a damcaniaethol o fewn y Portffolio;
- pwyslais ar sicrhau bod y myfyrwyr yn dod yn fwy hyderus ac annibynnol, gan fentro, arbrofi a gweithio mewn ffordd arloesol drwy amrywiaeth o gyfryngau, deunyddiau a thechnolegau;
- amrywiaeth eang o aseiniadau ysgogi o ansawdd uchel ar gyfer Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.





Mae'r cymhwyster TGAU newydd yn seiliedig ar lwyddiant manylebau blaenorol CBAC a rhoddwyd ystyriaeth briodol i adborth gan athrawon er mwyn llunio cyrsiau gwell. Fe'u cynlluniwyd i alluogi athrawon i barhau ag arfer gorau ac i fwrw ati'n hyderus i gynllunio a chyflwyno rhaglenni sy'n manteisio ar eu cryfderau ac sy'n addas ar gyfer cryfderau a galluoedd eu myfyrwyr. Mae'r cynnwys yn hyblyg a bydd yn galluogi athrawon a myfyrwyr i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael iddynt.

Mae Uned 1 y Portffolio yn caniatáu digon o amser i addysgu amrywiaeth bwysig (ac o bosibl ddiagnostig) o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Cydnabyddir y dylid cynnal y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n benodol i brosesau creadigol dros gyfnod o amser, y cyfeirir ato fel 'y daith greadigol', er mwyn meithrin arfer gorau. Cadarnhawyd hyn drwy ymgynghori ag athrawon, addysg uwch a rhanddeiliaid eraill.

Heb fawr syndod, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r methodolegau addysgol gorau oll ac yn ategu'n llawn y dilyniant i'r diwydiannau creadigol i'r rheini a fydd o bosibl yn awyddus i ddilyn gyrfa yn y sector cyflogaeth hwn.

Mae profiad o waith monitro ac asesu cyrsiau TGAU blaenorol wedi cadarnhau bod angen amser i feithrin sgiliau sylfaen, arbrofi, gwneud camgymeriadau, arloesi a chodi safonau'n gyffredinol. Mae'r fanyleb newydd yn golygu bod hyn yn bosibl.

Dylid cydnabod bod y cymhwyster TGAU wedi'i gynllunio fel rhaglen gwaith cwrs hyblyg sy'n caniatáu amrywiaeth helaeth o ddulliau gweithredu, gan gynnwys caniatáu hyd at ddau dymor ar gyfer gweithgareddau sylfaen. I'r rheini â phryderon o ran cynnal cymhelliant myfyrwyr dros y cyfnod estynedig, sef cyfanswm o bedwar tymor, mae sawl

opsiwn y gellir ei ystyried. Mae'r posibiliadau yn cynnwys cyflwyno aseiniad wedi'i osod yn fewnol (ffug arholiad) neu aseiniadau sy'n gysylltiedig â themâu gwaith cwrs ar adeg briodol yn ystod y cwrs, neu lunio - efallai drwy ymgynghori â'r myfyrwyr - gyfres o friffiau celf neu ddylunio penodol er mwyn ychwanegu ffocws a chynnal lefelau ymgysylltu.

## Beth yw cynnwys cwrs sylfaenol yr unedau TGAU?

Mae TGAU Celf a Dylunio yn cynnwys **dwy** uned:

### Uned 1: Portffolio

- cyfnod estynedig ar gyfer gwaith cwrs, gyda phrosiectau archwiliadol a deilliannau yn seiliedig ar themâu sy'n bersonol ac yn ystyrlon i'r myfyriwr;
- dull gweithredu integredig lle y caiff gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol eu cyfuno i lunio ymateb cydlynol;
- caiff y Portffolio ei bennu'n fewnol, ei asesu gan athrawon a'i safoni'n allanol;
- nid oes unrhyw derfyn amser penodedig ac eithrio'r ffaith bod angen i'r marciau a gaiff eu hasesu'n fewnol gan Ganolfannau gael eu cyflwyno i CBAC erbyn y dyddiad cau, sef **<u>31 Mai</u>**.

**<u>Noder</u>** Nodir disgrifiadau manylach o bob uned yn adrannau perthnasol y fanyleb.

Dylai cynllun y cwrs alluogi myfyrwyr i brofi proses integredig sy'n cyflawni'r holl Amcanion Asesu.

Dylai hefyd adlewyrchu natur gyfannol celf a dylunio er mwyn caniatáu i bob myfyriwr ymgysylltu â dealltwriaeth feirniadol (AA1), amrywiaeth o adnoddau, cyfryngau, deunyddiau, technegau a phrosesau (AA2), cofnodi myfyriol (AA3) ac ymatebion creadigol wedi'u llywio'n bersonol (AA4).

### Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol

Mae'n cynnwys **dwy** ran:

Rhan 1: Astudiaethau ategol/gwaith paratoadol yn seiliedig ar yr ysgogiad wedi'i osod yn allanol a ddewiswyd gan y myfyriwr.

- Dylai ymatebion fod ar ffurf gwaith paratoadol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol sy'n llywio rhan 2 ac yn berthnasol iddi.

Rhan 2: Cyfnod deg awr o waith ffocws estynedig, lle y bydd y myfyriwr yn cwblhau ei waith o dan amodau wedi'u goruchwylio.

- Caiff yr aseiniad ei asesu gan athrawon a'i safoni'n allanol.
- Caiff y ddwy ran eu hasesu gyda'i gilydd.
- Caiff y dyddiadau dechrau a gorffen eu pennu gan y Ganolfan, gan ystyried y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, sef **<u>31 Mai</u>**.

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (papur cwestiwn enghreifftiol - cyfeiriwch at dudalennau 5-16)

## Pam y cyflwynir ysgogiadau gweledol ac ysgrifenedig gyda'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol?

Mae Celf a Dylunio yn iaith weledol ac ymddengys yn gwbl resymol y dylid cynnwys ysgogiadau gweledol yn yr Aseiniadau wedi'u Gosod yn Allanol. Dewisir y delweddau gweledol ar sail eu deunydd pwnc a'u rhinweddau esthetig. Rhagwelir y gellir dod o hyd i'r ffynonellau sylfaenol, sy'n debyg i'r rhai a gynhwysir, fel arfer yn amgylchedd lleol y myfyriwr.

Mae'r fersiynau newydd o'r Aseiniadau wedi'u Gosod yn Allanol ar gyfer Uned 2 yn seiliedig ar lwyddiant sylweddol y fersiynau blaenorol, gyda rhai mân newidiadau. Mae profiad wedi dangos bod yr amrywiaeth o ysgogiadau yn addas ar gyfer gwahanol fyfyrwyr a ffyrdd o weithio ac mae'r dewis eang yn denu amrywiaeth sylweddol o ymatebion gan fyfyrwyr o bob gallu. Gall myfyrwyr ddewis unrhyw un o blith y pymtheg aseiniad, ar yr amod y byddant yn ymateb drwy'r ddisgyblaeth y maent wedi'u cofrestru ar ei chyfer.

## Sut y dylid cynnal Uned 2 (Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol)?

### Cyfnod paratoadol

Mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn rhan bwysig o'r broses asesu ac mae'n hanfodol sicrhau dealltwriaeth gadarn o'i ddilysrwydd, ei ddibynadwyedd a'i uniondeb, yn ogystal â gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd dysgu gwerthfawr y mae'n eu cynnig. Mae cyfrifoldeb ar bawb sy'n rhan o'r broses o gyflwyno ac asesu'r arholiad celf a dylunio hwn i sicrhau cydymffurfiaeth lwyr â'r gofynion a rhaid cydnabod nad dim ond y bwrdd arholi sy'n gyfrifol am wneud hyn.

O'r dyddiad rhyddhau ar gyfer papurau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, mae'n ofynnol i'r myfyriwr ddewis **un** o'r pymtheg aseiniad fel man cychwyn ar gyfer datblygu ei ymateb creadigol annibynnol ei hun. Dylid datblygu'r ymatebion yn ystod y cyfnod astudio paratoadol a dylent fod ar ffurf gwaith ymchwil cyd-destunol ac ymarferol ac astudiaethau ategol sy'n llywio'r broses o wireddu syniadau yn ystod y cyfnod 10 awr o astudiaethau ffocws estynedig.

Diffinnir **dechrau**'r cyfnod astudio paratoadol fel y dyddiad y cyflwynir deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i'r myfyriwr. Gall y cyfnod astudio paratoadol ddechrau ar **2 Ionawr** neu wedi hynny.

Yn dilyn y gwaith ymchwil a'r cyfnod astudio paratoadol hwn, dyrennir cyfnod o **10 awr o astudiaeth ffocws estynedig** i'r myfyrwyr er mwyn iddynt wireddu eu hymateb heb gymorth ac o dan amodau wedi'u goruchwylio. Y Ganolfan fydd yn pennu hyd y cyfnod ymchwil a'r cyfnod astudio paratoadol: rhaid i ddyddiadau dechrau a gorffen y cyfnod astudio paratoadol a'r cyfnodau 10 awr o astudiaethau ffocws estynedig **ystyried y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r holl farciau wedi'u hasesu'n fewnol i CBAC, sef 31 Mai.**

Er mwyn cyfleu arfer creadigol a chynnig yr un mynediad a phrofiadau i'r myfyrwyr ar draws disgyblaethau a themâu perthynol, mae'n hanfodol caniatáu i'r myfyrwyr ymgymryd â gwaith paratoadol **y tu allan** i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, gall gwaith paratoadol fod ar ffurf sesiynau tynnu lluniau neu sesiynau ffilmio y tu allan, neu gofnodi ffurfiau ymchwil eraill ar leoliad (braslunio, creu peintiadau archwiliadol neu weithiau eraill megis astudiaethau tirlun/tirlun dinas, peintiadau plein air neu arbrofi â chelf tir, ymweliadau ymchwiliol

annibynnol ag orielau i edrych ar waith dylunio graffig, tecstilau neu 3D sefydlog). Gall y gwaith fod yn ddigidol, ar ffurf tri dimensiwn, llyfr braslunio neu'n seiliedig ar bortffolio, neu'n unrhyw gyfuniad o'r rhain.

Rhaid i athrawon fonitro a dilysu'r gwaith paratoadol drwy gydol y cyfnod paratoadol a chyn dechrau ar y cyfnod o waith ffocws estynedig er mwyn iddynt allu cadarnhau mai gwaith y myfyriwr ei hun wedi'i baratoi heb unrhyw gymorth yw'r gwaith.

### Dilysu gwaith

O dan unrhyw amgylchiadau, rhaid sicrhau'n ddiamau mai gwaith y myfyriwr ei hun yw'r holl waith a gyflwynir i'w asesu, gan gynnwys gwaith astudio paratoadol yr ymgymerir ag ef y tu allan i'r Ganolfan. Mae'n bwysig y caiff aseiniadau eu monitro'n drwyadl gan Ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith y myfyrwyr eu hunain a gyflwynir. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi datganiad dilysu yn cadarnhau mai ei waith gwreiddiol yw'r aseiniad (aseiniadau) a rhaid i athrawon gydlofnodi'r datganiad er mwyn cadarnhau eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Rhaid i'r myfyriwr a'r athro lofnodi'r dogfennau. Bwriad yr adran 'Fy Natganiad Creadigol' yn y dogfennau hyn yw ategu'r broses hon drwy esbonio a dilysu taith bersonol, greadigol pob myfyriwr o fewn pob uned. Ceir enghreifftiau o'r ffurflenni hyn yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol a gellir cael gafael ar fersiynau digidol sy'n cynnwys blychau sy'n cynyddu wrth eu llenwi ar y wefan.

Rhaid nodi pob deunydd ffynhonnell eilaidd, megis delweddau o waith artistiaid neu ffotograffwyr neu ddyfyniadau, yn glir a'u cydnabod naill ai yng nghorff y gwaith neu yn y Ddogfennaeth Ddilysu. Rhaid i bob athro sydd wedi marcio gwaith myfyrwyr lofnodi'r datganiad dilysu sy'n cyd-fynd â'r ddogfen 'Fy Natganiad Creadigol' ar gyfer pob uned er mwyn cadarnhau mai dim ond gwaith y myfyriwr dan sylw a gyflwynir ac y gwnaed y gwaith hwnnw o dan yr amodau a nodir yn y fanyleb hon. Rhaid i athrawon sicrhau y caiff y ddogfen dilysu a'r ddogfen ‘Fy Natganiad Creadigol’ eu cwblhau ar gyfer pob myfyriwr a'u bod ar gael at ddibenion dilysu yn ystod y broses safoni. Rhaid i bob myfyriwr gwblhau dogfennaeth ddilysu, nid dim ond y myfyrwyr hynny a ddewiswyd ar gyfer y sampl a welir gan y cymedrolwr.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, dylai aelod o staff yr adran celf a dylunio oruchwylio'r broses hon. Lle na oruchwyliwyd y gwaith yn ofalus, dylid rhoi mesurau addas ar waith i sicrhau bod cymeriad ac ansawdd y gwaith yn cyfateb i'r cymeriad ac ansawdd a gynhyrchid o dan oruchwyliaeth. Gellir defnyddio sawl strategaeth at y diben hwn, megis:

- ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr ymgymryd â gwaith tebyg o dan oruchwyliaeth agos a chymharu safonau â'r gwaith a luniwyd heb oruchwyliaeth;
- cynnal viva gyda'r myfyriwr er mwyn trafod tarddiad y gwaith a'r broses o'i ddatblygu er mwyn cadarnhau dilysrwydd;
- gofyn i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth bod y gwaith heb oruchwyliaeth yn ddilys.

Er mwyn osgoi unrhyw achos o gamddealltwriaeth neu gywilydd yn ddiweddarach, mae rhai Canolfannau yn rhoi'r strategaethau hyn ar waith ar ffurf contract o ddechrau'r cwrs. Rhaid dilyn y gweithdrefnau uchod ar gyfer pob darn o waith sy'n rhan o'r uned Portffolio a'r holl waith paratoadol ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol er mwyn diogelu uniondeb y system asesu.

## Gwaith ffocws estynedig

Mae'r Cyfnod Ffocws Estynedig ar gyfer Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn y fanyleb newydd yn gyfnod o ddeg awr, a gynhelir o dan amodau arholiad. Oherwydd yr amrywiaeth eithriadol o ddulliau gweithredu a fabwysiedir gan fyfyrwyr wrth fynd i'r afael â'r cyfnod o waith ffocws estynedig, nid yw'n bosibl nac yn ddymunol nodi gweithdrefnau penodol ar gyfer cynnal y cyfnod deg awr yn y ddogfen hon.

Fodd bynnag, dylid cyfeirio at y ddogfen *Instructions for Conducting Examinations* a luniwyd gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ). (www.jcq.org.uk). Mae'r amodau ar gyfer cynnal y sesiynau Ffocws Estynedig ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol hefyd ar gael yn y Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol a dylid gweithredu'n unol â'r dogfennau hyn.

Mae'n ofynnol i ganolfannau gydymffurfio'n gaeth â rhai egwyddorion cyffredinol ac, yn ogystal â diogelu uniondeb gweithdrefnau asesu yn drylwyr, mae'r egwyddorion hyn yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddarparu ar gyfer yr amrywiaeth helaeth o gyfryngau, technegau a phrosesau a ddefnyddir gan fyfyrwyr ar draws amrywiol deitlau'r arholiad. Mae'r rhain yn amrywio o dechnolegau hirsefydledig, megis gwaith cerameg wedi'i danio, i'r cyfryngau diweddaraf a gaiff eu prosesu'n ddigidol.

**1.** Mae'r egwyddor gyntaf a'r pwysicaf, fwy na thebyg, yn ystyried gwerth addysgol gwaith ffocws estynedig. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl weithredu o fewn cyfyngiadau amser penodedig yn ystod eu bywyd beunyddiol ac yn y gweithle. Mae'r cyfnod o ddeg awr yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr gael profiad o weithio o dan rai cyfyngiadau penodol ac o fewn ffrâm amser wedi'i bennu ymlaen llaw. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn, mae angen cynllunio a pharatoi'n fanwl ymlaen llaw er mwyn sicrhau y ceir profiad dysgu cadarnhaol.

**2.** Felly, yr ail egwyddor yw bod yn rhaid cynllunio'r cyfnod o ddeg awr yn briodol. Dylai pob myfyriwr, drwy ymgynghori'n agos â'i athro, ymgymryd â'r gwaith cynllunio hwn ymlaen llaw. Rhaid i'r cyfnodau a gynllunnir ystyried ffactorau trefniadol a allai gynnwys y canlynol:

- yr adnoddau, y cyfarpar, y gofod gwaith y bydd eu hangen;
- yr amser a gymerwyd i ymgymryd â'r amrywiol weithdrefnau a'r prosesau cysylltiedig megis golchi, argraffu, glanhau, sychu a thanio.

Fel y bo'r angen, dylid rhannu'r cyfnod o ddeg awr yn sesiynau byrrach* er mwyn gallu ymgymryd â gwaith atodol, megis paratoi sgriniau, sychu gwaith clai a thorri byrddau mowntio y tu allan i'r cyfnod o ddeg awr.

**3.** Mae hyn yn arwain at y drydedd egwyddor, sef y dylai'r cyfnod o ddeg awr wneud y defnydd gorau o amrywiaeth galluoedd y myfyriwr er mwyn sicrhau ei fod yn brawf dilys o gymwyseddau pwysig a'i fod yn cynrychioli lefel her ddigon uchel. Ni ddylai tasgau cul na thasgau cymharol hawdd, megis labelu neu fowntio gwaith neu argraffu ffotograffau ar ffurf ddigidol, ddefnyddio llawer o'r amser a ddyrannwyd, os o gwbl.

Yn olaf, rhaid nodi'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod o ddeg awr yn glir yng nghorff y dystiolaeth a gyflwynir i'w chymedroli. Er y bydd y broses o asesu Uned 2 yn ystyried yn llawn yr holl waith a gyflwynwyd, bydd angen i'r cymedrolwr ystyried yr hyn y llwyddodd

y myfyriwr i'w lunio o dan amodau rheoledig y cyfnod gwaith ffocws estynedig.
O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, caiff y cyfnod o ddeg awr ei drefnu er mwyn sicrhau y gall y myfyriwr gwblhau ei waith yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, gall fod angen atgoffa myfyrwyr nad oes yn rhaid i'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol arwain at ddarn o waith gorffenedig, ond y dylai fod yn ddigon gorffenedig i ddangos eu gallu i barhau â'r aseiniad hyd at ei orffen.

Yn union ar ôl y cyfnod ffocws estynedig, dylai myfyrwyr ddethol, labelu, cyflwyno a gwerthuso eu gwaith er mwyn paratoi ar gyfer y broses farcio fewnol a'r broses safoni allanol. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

***NID** argymhellir y dylid cynnal gwaith ffocws estynedig dros ormod o sesiynau byr wedi'u cynnal dros gyfnod o fwy nag wythnos, gan fod hyn yn debygol o beri anfantais i'r myfyrwyr, oherwydd diffyg parhad. Mae'r arfer o drefnu sesiynau yn ystod y cyfnod ffocws estynedig er mwyn eu cynnal yn ystod amser gwersi arferol yn debygol o amharu ar allu myfyrwyr i gymhwyso eu hunain. Fel yr awgryma ei deitl, dylai'r cyfnod fod yn **estynedig** a dylai fod ganddo **ffocws** penodol a dylid rhoi trefniadau amserlennu priodol ar waith er mwyn hwyluso hyn. Gellid ystyried sesiynau rhwng tair awr a phump awr o hyd o fewn cyfnod o un wythnos fel y norm.

## Fy Natganiad Creadigol

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr gwblhau'r ffurflen '**Fy Natganiad Creadigol**' orfodol ar gyfer y ddwy uned, h.y. y Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol ni waeth pa deitl y gwnaethant gofrestru ar ei gyfer.

Un o ddibenion llunio'r ffurflen 'Fy Natganiad Creadigol' yw galluogi myfyrwyr i gyflwyno'r syniadau a'r gweithredoedd sy'n sail i'w cyflwyniadau i eraill. Mae cymedrolwyr yn nodi'n gyson lle y bydd myfyriwr wedi treulio amser ac wedi gwneud ymdrech i ystyried ei amcanion yn ofalus a'u dogfennu ac i gynllunio sut y gellid eu cyflawni yn y ffordd orau, bod gan gyflwyniadau ddiben cryfach ac ymdeimlad cliriach o ran cyfeiriad. Yn hanfodol, rhaid ystyried y datganiad fel gweithgaredd cynllunio parhaus, a gaiff ei ddogfennu o bosibl ar ddechrau uned, ei ail-arfarnu wrth astudio ac ar ddiwedd y cyfnod astudio. Os tybir mai dim ond gweithgaredd llenwi ffurflen ydyw, nid yw'n debygol y bydd yn fuddiol iawn.

Mae'r ddogfen 'Fy Natganiad Creadigol' yn darparu fframwaith defnyddiol i fyfyrwyr drefnu eu gwaith ac egluro'r broses i eraill. Fe'i cyflwynir o dan y penawdau 'Prif Syniad', 'Cyd-destun' a 'Myfyrio'. Mae'r adran gyntaf yn galluogi'r myfyriwr i egluro'r prif syniad y datblygwyd yr ymateb ohono, e.e. y ffordd y caiff yr ysgogiad a ddewiswyd yn yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol ei ddehongli. Mae'r ail adran yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr ddisgrifio cyd-destun y gwaith, h.y. ei ddylanwadau, dibenion ac ystyr, er enghraifft, y ffordd y mae'r broses astudio cyd-destunol wedi effeithio ar waith ymholi ymarferol personol. Mae'r adran olaf yn rhoi cyfle i fyfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl ei gwblhau, er enghraifft, gan ddangos sut y llwyddwyd i gyflawni dealltwriaeth ddyfnach ac ystyr a diben cliriach.

Enghraifft o 'Fy Natganiad Creadigol': **Portffolio 'Fy Natganiad Creadigol'**

## Pa newidiadau eraill a gyflwynwyd yn y fanyleb newydd?



Yn ogystal â'r newidiadau a drafodwyd eisoes yn y canllaw hwn, gofynnodd rhanddeiliaid am fwy o bwyslais ar ddwy elfen arall. Gwnaed yr elfennau hyn yn ofynnol gan y rheoleiddwyr yn y ddogfen 'Cynnwys Pwnc ar gyfer TGAU' ac, fel y cyfryw, maent yn berthnasol i bob manyleb celf a dylunio a lunnir gan bob corff dyfarnu. Mae'r gofyniad ychwanegol cyntaf yn cyfeirio at **luniadu** ac mae'r ail yn cyfeirio at **anodi**. Isod ceir nodiadau canllaw ar y ddau bwnc hyn.

## Nodyn **ar luniadu**

Mae'r Cynnwys Pwnc a gyhoeddwyd gan y rheoleiddwyr yn nodi bod yn rhaid i bob myfyriwr ddefnyddio sgiliau lluniadu i ategu'r broses ddatblygu o fewn pob maes astudio (Teitl) a ddewisir. Cyflwynwyd y gofyniad hwn mewn ymateb i geisiadau gan athrawon a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys arweinwyr cyrsiau sylfaen, addysg uwch, y Gynghrair Ddysgu Diwylliannol, y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Addysg mewn Celf a Dylunio, Arts Council England, engage, Prifysgol y Celfyddydau, Llundain ac adroddiad 'Making a Mark' gan Ofsted.



Cynhwysir datganiad gan y rheoleiddiwr yn y fanyleb sy'n cadarnhau nad yw'n ofynnol i fyfyrwyr ddangos meistrolaeth dechnegol o sgiliau lluniadu oni bai bod hynny'n berthnasol i'w maes astudio. Mae hyn dangos cydnabyddiaeth bwysig i'r ffaith bod sawl gwahanol fath o luniadu ac y defnyddir sgiliau lluniadu at amrywiaeth eang o ddibenion. Felly gall lluniadu fod ar ffurf brasluniau, astudiaethau arsylwi dadansoddol, byrddau stori, brasluniau bawd, cynlluniau, gwaith bras, astudiaethau arbrofol neu fynegiannol, modelu dau neu dri dimensiwn, dyluniadau, cynlluniau neu olygon manwl. Gellir lluniadu drwy ddefnyddio adnoddau digidol megis pwyntil a rhaglen feddalwedd, neu gyfryngau traddodiadol megis siarcol, pensil, pasteli, creonau neu ysgrifbin. Yn yr un modd gall lluniadu fod yn hynod effeithiol pan gaiff adnoddau a thechnolegau digidol eu hintegreiddio â phrosesau mwy traddodiadol.

Dylid nodi y caiff tystiolaeth o luniadu ei gwobrwyo fel rhan annatod o'r broses asesu yn hytrach na dyfarnu dyraniad penodol o farciau ar draws Uned 1 ac Uned 2.

Fel y noda Anita Taylor - '*Drawing is a central and pivotal activity to the work of many artists and designers, a touchstone and tool of creative exploration that informs visual discovery and enables the envisagement and development of perceptions and ideas*'[12]. Dadleuir yn aml bod lluniadu yn unigryw gan ei fod yn gwella gallu myfyrwyr i weld ac i ddeall y byd gweledol a chyffyrddol. Yn bwysig, mae'n galluogi iddynt feddwl yn weledol ac i gyfleu'r meddyliau hyn i eraill. Hyd yn oed os mai dim ond lefel gymharol isel o gymhwysedd a feithrinwyd gan fyfyrwyr, gallant ddefnyddio sgiliau lluniadu mewn ffordd bwrpasol o hyd i gofnodi gwybodaeth, delweddu syniadau a chyfathrebu posibiliadau.




Mae Eileen Adams[13] yn awgrymu bod tri chategori lluniadu bras ac er ei bod yn debygol y bydd pob lluniad yn cynnwys elfennau o bob un ohonynt, y bydd un swyddogaeth sylfaenol fel arfer yn amlwg. Mae'n diffinio'r categorïau hyn fel a ganlyn:

- *Canfyddiad* - Lle y caiff lluniadau eu cynhyrchu sy'n helpu i roi trefn ar synwyriadau, teimladau, syniadau a meddyliau yn bennaf er mwyn diwallu anghenion, rhoi pleser, ennyn diddordeb neu er budd y person sy'n lluniadu. Gallant gynnig ffordd o ymchwilio i'r byd a'i ddeall.
- *Cyfathrebu* - Lle y caiff lluniadau eu cynhyrchu sy'n helpu i sicrhau bod syniadau, meddyliau a theimladau ar gael i eraill. Yn aml defnyddir codau neu gonfensiynau penodol, e.e. cynlluniau, mapiau, diagramau, darluniau technegol ac ati.
- *Trin* - Lle y caiff lluniadau eu cynhyrchu sy'n helpu i drin syniad mewn ffordd greadigol a'i ddatblygu o gam embryonig i rywbeth mwy ffurfiedig. Gall un lluniad annog y nesaf ac yn aml byddant yn rhan o gyfres o luniadau lle y caiff syniadau eu datblygu, eu hailadrodd, eu mireinio, eu gwrthod, eu cyfuno ac yr ymchwilir i syniadau amgen.

Gall pob un o'r categorïau lluniadu hyn ymwneud ag arfer mewn celf, crefft a dylunio a dylent fod yn rhan annatod o waith myfyrwyr yn Unedau 1 a 2. Mae'n bwysig defnyddio sgiliau lluniadu at anghenion a dibenion gwahanol, sy'n briodol i'r cyd-destun.

Felly nid yw 'meistrolaeth dechnegol' o reidrwydd yn ofyniad ac nid oes rhaid i weithgareddau lluniadu bob amser gynnwys astudiaethau arsylwadol manwl gywir sy'n dangos lefel uchel o sgiliau. Yn hytrach, mae'r datganiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i fyfyrwyr feithrin cymhwysedd yn y ffurfiau lluniadu sy'n briodol i'r ddisgyblaeth neu'r teitl y maent yn ei hastudio/astudio. Dylai'r ffocws hwn annog myfyrwyr i werthfawrogi arwyddocâd lluniadu yn ei ystyr ehangaf, drwy nodi ac adolygu sut mae'n llywio'r broses greadigol.

---

[12] Taylor, A (2008) 'Foreword – Re: Positioning Drawing', yn *Writing on Drawing* (Golygydd Garner, S), Intellect Books, Bryste, tud 9.

[13] Adams, E (2001) 'Uses of Drawing', yn engage Review, Rhifyn 10 (Hydref 2001).




Mae llyfrau braslunio, dyddiaduron gweledol neu lyfrau gwaith crefft/dylunio yn cynnig ffyrdd effeithiol iawn i fyfyrwyr gofnodi tameidiau diddorol o wybodaeth, drwy luniadu a thrwy ddulliau eraill, rhoi cynnig ar bosibiliadau myfyrgar ac archwilio deunyddiau a thechnegau fel rhan o astudiaeth ymchwiliol. Maent yn gweithredu fel llyfrau 'trin a thrafod' lle y caiff syniadau eu creu a'u magu fel rhan o broses greadigol ailadroddus. Yn aml byddant yn cynnwys syniadau bras a nodiadau gweledol heb eu gorffen yn hytrach na ffurfio casgliad o ddarnau gwaith gorffenedig.


Ni fwriedir i'r fanyleb hon ffafrio un ffurf ar luniadu dros ffurf arall: mae lle i'r braslun ystumiol mwyaf bras, yr astudiaeth fwyaf medrus yn dechnegol neu'r dyluniad mwyaf manwl. Yn hytrach, mae'n bwysig sicrhau bod y broses luniadu yn bwrpasol a'i bod yn fwy na dim ond addurn caboledig. Gall lluniadau wedi'u hanodi fod yn ddefnyddiol iawn i'r perwyl hwn o ran helpu i egluro prosesau meddwl ym meysydd ffotograffiaeth, dylunio tri dimensiwn neu gelfyddyd gain er enghraifft.

Gan ddibynnu ar y gweithgaredd a'r bwriad, gall y term 'lluniadu' gynnwys brasluniau, astudiaethau arsylwi dadansoddol, byrddau stori, brasluniau bawd cyfansoddiadol neu adeileddol, gosodiadau a gwaith bras, astudiaethau arbrofol, ystumiol neu fynegiannol, modelu dau neu dri dimensiwn, cynlluniau, golygon neu ddyluniadau manwl. Nid oes fawr o gyfyngu ar y diffiniad o luniadu, ac mae'r amrywiaeth o gyfryngau yr un mor eang: sialc; siarcol (meddal neu galed); pensil lliw; craeon conté ; graffit; bys dynol (gydag inc neu baent); dilewyr; marcwyr gwirod; pastel; pen ac inc; paent; a phensil. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr nac wedi'i chyfyngu i gyfryngau monoton - gellir defnyddio lluniadau a chynlluniau lliw hefyd.

Mae technolegau digidol yn cynnig ffurf arall ar luniadu gan ddefnyddio llechi, cyfrifiaduron neu ffonau symudol amrywiol a'u cyfuno â rhaglenni meddalwedd neu apiau fwyfwy soffistigedig. Mae'r cyfleoedd yn amrywio o luniadu rhydd 'yn y fan a'r lle' i ddefnyddio cymwysiadau dylunio drwy gymorth cyfrifiadur. Pwynt terfynol: gall arbrofi â chyfryngau lluniadu cymysg, gan gynnwys cyfuno dulliau digidol a thraddodiadol o weithio, fod yn hynod ysgogol a chreadigol.













## Nodyn pellach ar luniadu arsylwadol

Bu'n gred ers amser bod lluniadu yn unigryw gan ei fod yn gwella gallu myfyrwyr i weld ac i ddeall y byd gweledol a chyffyrddol. Pwysleisiodd Jean-Jacques Rousseau (1760) bwysigrwydd gweithio drwy arsylwi'n uniongyrchol:

> *All children in the course of their endless imitation try to draw: and I would have Emile cultivate this art, not so much for art's sake, as to give him exactness of eye and flexibility of hand. …he should have the real thing before his eyes, not its copy on paper*. [14]

Mae athrawon yn aml yn annog myfyrwyr i 'edrych yn ofalus' - ond i edrych ar beth? Byddai o gymorth rhannu'r cyfarwyddyd a gofyn i'r myfyrwyr roi ystyriaeth fanwl i gwestiynau megis: Pa mor uchel ydyw? Pa mor llydan ydyw? Pa siâp ydyw? Pa ongl ydyw? Er ei fod yn swnio'n amlwg, o bosibl, gall y dull gweithredu hwn fod yn rhyfeddol o effeithiol. Hefyd, mae eglurder o ran y math o luniadu dan sylw o gymorth. Ai'r bwriad yw creu lluniad llinell, lluniad hanner tôn neu luniad tôn llawn? Yn rhy aml, mae lluniad yn dechrau fel lluniad llinell, wedyn yn dod yn lluniad hanner tôn pan nad yw'n gweithio yn ôl y bwriad ac yn ddiweddarach, ar ôl mynd i'r pen, daw'n waith tôn llawn.
Anaml y mae penderfyniad i adeiladu ar wallau cynnar yn llwyddo'n dda iawn. Ni fydd unrhyw swm o fesur yn gwarantu lluniad cywir; y gyfrinach o ran meithrin cymhwysedd yw sylw manwl, y gallu i fod yn hunanfeirniadol ac i gywiro unrhyw wallau canfyddedig cyn eu gwaethygu drwy ruthro i fwrw ati'n ddifeddwl.

[14] Rousseau, J (1760) *Emile (Book I),* Llundain, Dent (rhifyn 1911 a 1950).

Mae un o gyflwyniadau CBAC ar gyfer TGAU Celf a Dylunio, sef 'Drawing as Communication: Establishing drawing within GCSE Art & Design' yn dangos sut y gellir defnyddio lluniadu fel ffordd o gofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a safwbyntiau, tra'n gweithio o ffynonellau sylfaenol mewn ffordd fynegiannol. Mae'n dangos sut y gellir defnyddio lluniadu fel ffordd o archwilio syniadau a'u cyfleu, ymchwilio i themâu a chyd-destunau, datblygu syniadau, fel cymorth wrth ddeall adnoddau cyd-destunol, yn y trydydd dimensiwn a chan ddefnyddio adnoddau digidol.

Dolen: [Drawing as Communication.]





## Nodyn ar anodi ac ysgrifennu mwy estynedig

Mae'r fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gofnodi eu syniadau, arsylwadau, mewnwelediadau a safbwyntiau annibynnol, nid yn unig yn weledol ond hefyd drwy anodi. Gall hyn fod ar ffurf llyfrau braslunio/gwaith wedi'u hanodi, astudiaethau paratoadol neu ddatganiadau mwy sylweddol.

Fel gyda lluniadu, caiff tystiolaeth o anodi ac ysgrifennu estynedig ei gwobrwyo fel rhan annatod o'r broses asesu yn hytrach na dyfarnu dyraniad penodol o farciau amdani.

Bydd cyd-destun a ffurf ysgrifennu o'r fath yn dibynnu ar yr hyn y mae'r myfyriwr yn dymuno ei gyfleu neu ei fynegi. Er enghraifft, gall ffurfiau mwy estynedig ar ysgrifennu gael eu defnyddio pan fydd myfyrwyr yn ysgrifennu am waith pobl eraill y maent wedi dod ar ei draws mewn termau beirniadol neu gyd-destunol neu er mwyn egluro a myfyrio ar y broses o ddatblygu eu syniadau yn eu Datganiadau Creadigol. Pa un a fydd myfyrwyr yn defnyddio anodi a/neu ffurfiau ysgrifennu mwy estynedig, dylent ddefnyddio arddull sy'n addas at y diben, yn ddarllenadwy, yn glir ac yn gydlynus, ac sy'n defnyddio geirfa arbenigol briodol. Gall y gwaith ysgrifenedig a gyflwynir fod mewn llawysgrifen a/neu ar ffurf ddigidol.




Gall myfyrwyr ddefnyddio anodi neu ffurfiau ysgrifennu eraill er mwyn ymdrin ag unrhyw un o'r pedwar amcan asesu neu bob un ohonynt. Yn AA1, disgwylir y bydd gwaith ysgrifenedig yn amlygu dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol. Yn AA2, er enghraifft, gall sylwebaeth ysgrifenedig gael ei defnyddio i ystyried y cydberthnasau rhwng dulliau gweithio ymarferol a deilliannau, yn ogystal â dangos proses adolygu beirniadol barhaus. Yn AA3, gall myfyrwyr ddefnyddio nodiadau ysgrifenedig, ar y cyd â lluniadu, fel ffordd o gofnodi arsylwadau a dangos myfyrio a mewnwelediad beirniadol yn ystod eu hymchwiliadau. Yn AA4, gall myfyrwyr ddefnyddio anodi er mwyn ychwanegu ystyr i'w gwaith a  gwerthuso'r prosesau a ddefnyddiwyd i wireddu eu bwriadau.

Drwy gydol y cwrs dylid annog y myfyrwyr i weld gwerth anodi ac i ddeall sut y gall fod yn rhan annatod o’r broses greadigol os caiff ei gyfuno â gwaith ymchwilio ymarferol. Dylai ymatebion ysgrifenedig ac ymarferol gael eu hintegreiddio’n bwrpasol, dylent ategu ei gilydd, a chânt eu hasesu’n gyfannol.

Bwriedir i'r enghreifftiau canlynol ddangos sut y mae rhai myfyrwyr wedi bodloni'r gofyniad hwn: Dolen i'r enghreifftiau (o dan Dogfennau DPP).

## Sut mae athrawon eraill yn mynd ati i weithredu sylfaen o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, lluniadu ac anodi?

Lluniwyd yr ymatebion canlynol o grwpiau trafod yn cynnwys athrawon a darlithwyr a ddaeth i sesiynau DPP. Gofynnwyd iddynt drafod dulliau gweithredu a fu'n llwyddiannus, yn eu barn hwy. Cafodd y syniadau a'r awgrymiadau a gyflwynwyd ganddynt eu golygu, eu cyfuno a'u hehangu er mwyn darparu adnodd a allai fod yn ddefnyddiol ac y gellir ei ddefnyddio i ategu/gwella strategaethau addysgu a dysgu.

### Dulliau o gyflwyno'r Portffolio

I. Un dull a fu'n llwyddiannus yn ein hadran ni fu mabwysiadu un uned estynedig o waith cwrs, yn seiliedig ar thema eang, agored megis 'Teithiau', 'Organig/Synthetig', 'Bwyd a diod', 'Arwynebeddau', 'Casgliadau', 'Amgylcheddau' neu 'Ddiwylliant' fel man cychwyn cychwynnol. Caiff dau dymor cyntaf Blwyddyn 10 eu neilltuo ar gyfer cyflwyno sylfaen o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth bwysig. Er enghraifft, mae ein gwaith yn ystod Tymor yr Hydref ym Mlwyddyn 10 yn canolbwyntio ar luniadu a phaentio o arsylwi, yn yr ystafell ddosbarth ac allan ar leoliad, (gan ymsefydlu

technegau lluniadu ac elfennau ffurfiol megis cymysgu lliwiau, cyfansoddiad, arbrofi â dulliau paentio ac ati).
Yn ystod Tymor y Gwanwyn, rydym yn dadansoddi mudiadau celf perthnasol megis Fortisiaeth neu Ôl-argraffiadaeth ac yn archwilio'r broses o wneud printiau. Wedyn, bydd y myfyrwyr yn datblygu eu syniadau a'u hymatebion eu hunain yn ystod Tymor yr Haf ym Mlwyddyn 10 ac yn cwblhau eu Portffolio mewn Ffug Arholiad ar ddiwedd Tymor yr Hydref ym Mlwyddyn 11. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau cydlyniad drwy'r gwaith, yn cynnal diddordeb y myfyrwyr, yn eu galluogi i ddatblygu ymatebion personol a hefyd yn sicrhau y caiff eu gwaith cwrs ei gwblhau cyn dechrau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

II. Credwn yn gryf y dylai ymatebion y myfyrwyr fod yn seiliedig ar eu hobïau a'u diddordebau, gan gysylltu â gwaith artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr perthnasol. Gyda grwpiau addysgu llai, mae'n llawer haws strwythuro'r dull gweithredu hwn o fewn rhaglenni dysgu. Gyda grwpiau mwy, mae angen cryn dipyn o waith trefnu a chydgysylltu er mwyn gallu cyflwyno cwrs 'wedi'i deilwra'n benodol' ar gyfer pob myfyriwr, ond mae'n werth yr ymdrech. Rydym yn teilwra rhaglenni dysgu yn ôl anghenion a diddordebau'r myfyrwyr, gan drafod cynlluniau prosiect ac edrych ar gynnydd gyda phob myfyriwr yn barhaus a chan hefyd sicrhau yr ystyrir y lefel her briodol. Mae'r myfyrwyr yn dangos ymdeimlad gwirioneddol o foddhad a pherchenogaeth dros eu gwaith ac yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu cyflawniad pan fyddant yn astudio cwrs a gynlluniwyd ganddynt ar y cyd â'r athro.

III. Gall rhai myfyrwyr golli cymhelliant pan gaiff un prosiect ar gyfer y Portffolio ei ymestyn dros bedwar tymor. O dan amgylchiadau o'r fath, gall cyflwyno estyniad newydd neu brosiect cysylltiedig, neu gyfres o friffiau bach ailennyn diddordeb a gwella ymgysylltiad.

IV. Mae myfyrwyr yn dod o hyd i ysbrydoliaeth ar gyfer eu Portffolio o'r canlynol: cyfres o ddigwyddiadau neu weithdai Artist Preswyl a/neu ymweliadau ag Orielau neu deithiau preswyl; ffocws ar yr amgylchedd lleol; adnoddau yn yr ystafell ddosbarth/casgliadau o wrthrychau, megis ffurfiau gwneuthuredig a ffurfiau naturiol; sioeau cyrsiau gradd Addysg Uwch neu Sylfaen neu Ddiwrnodau Agored; Stiwdios agored a gynhelir gan ddiwydiannau creadigol lleol, megis sefydliadau Graffeg/Brandio, Crochendai, theatrau neu wneuthurwyr.

V. Mae ein myfyrwyr yn trafod ac yn asesu archifau o bortffolios llwyddiannus yn rheolaidd. Mae'r arfer hwn yn galluogi'r myfyrwyr i weld amrywiaeth o ddulliau gweithredu a'r llwybrau niferus y gall taith greadigol eu dilyn, ac yn eu helpu i feithrin dealltwriaeth o'r broses asesu. Mae hefyd yn eu helpu i gynllunio a gwerthuso eu dysgu eu hunain yn effeithiol.

VI. Yn ein hadran, ceir pwyslais sylweddol ar ddefnyddio llyfrau braslunio fel Dyddiaduron Myfyriol Personol, lle y bydd y myfyrwyr yn cynnig syniadau, yn arbrofi gyda deunyddiau a thechnegau ac yn eu harchwilio ac yn dogfennu hynt eu teithiau creadigol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r gwaith yn sylweddol ac yn helpu'r myfyrwyr i

gyflwyno tystiolaeth o'r amcanion asesu yn effeithiol.

VII. Mae ein dull o addysgu sgiliau sylfaen ar gyfer y Portffolio yn cynnwys prosiectau ffocws byr cyflwyniadol sy'n helpu ein myfyrwyr i ddysgu gwahanol sgiliau a phrosesau ac i feithrin gwybodaeth dda am artistiaid perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod y myfyrwyr yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i allu bwrw ati â'u syniadau a'u hymatebion personol yn ddiweddarach yn ystod y cwrs.

VIII. Rydym yn cadw casgliad o hen bapurau aseiniad ac mae'r myfyrwyr yn dewis eu themâu neu friffiau personol ar gyfer y Portffolio o blith y papurau hyn. Mae'n well gan lawer o'n myfyrwyr fabwysiadu briffiau seiliedig ar waith ar gyfer eu prosiectau a gall y cwestiynau Cymhwysol etifeddol ddarparu mannau cychwyn defnyddiol iawn iddynt.

**Dulliau lluniadu at ddibenion gwahanol**

I. Rydym yn sicrhau bod lluniadu yn hwyl ac yn bleserus drwy gyflwyno dulliau a thechnegau arbrofol o Flwyddyn 7. Yn ystod y cyfnod gosod sylfaen sgiliau yn ystod Blwyddyn 10, rydym yn ymhelaethu ar y technegau hyn ac yn mabwysiadu athroniaeth lluniadu cwrs Sylfaen: lluniadu â mwgwd dros y llygaid; 'mynd â llinell am dro'; lluniadu i gerddoriaeth; lluniadu er mwyn dangos seiniau, arogleuon neu nodweddion cyffyrddol gwrthrychau; lluniadu gan ddefnyddio nifer gyfyngedig o linellau; lluniadu gan ddefnyddio amrywiaeth o inciau Dwyreiniol a ffyrdd o ddal y brws; lluniadau ysgafn, lluniadu gan ddefnyddio cerdyn neu frigyn ac inc, lluniadu amlinellol; ac amrywiol weithgareddau gwneud marciau.

II. Gall lluniadu digidol, yn enwedig defnyddio iPad, fod yn ffordd rymus ac effeithiol iawn i fyfyrwyr ag anabledd corfforol gyfleu syniadau a chofnodi gwybodaeth.

III. Rydym yn dangos llyfrau braslunio a lluniadau drafft artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr gweithredol i'r myfyrwyr. O'u gweld yng nghyd-destun y gwaith, ac o fewn disgyblaeth benodol, mae hyn yn helpu'r myfyrwyr i werthfawrogi gwerth hyd yn oed y braslun mwyaf bras neu fraslun bawd ac i ddeall nad oes rhaid i'w lluniadau fod yn berffaith o reidrwydd.

IV. Mae rhai myfyrwyr yn teimlo'n nerfus wrth luniadu. Fodd bynnag, cafwyd gennym fod: lluniadau dall, lluniadu ar raddfa fawr iawn, gwneud lluniadau llinellau parhaus a lluniadu gan ddefnyddio gwrthrychau y daethpwyd ar eu traws yn helpu i gael gwared ar y pwysau a'r pryder sy'n gysylltiedig â gweithgareddau lluniadu. Rydym hefyd yn annog myfyrwyr i fwynhau lluniadu ac i fabwysiadu dulliau gweithredu creadigol, llawn dychymyg drwy greu darnau a rennir, h.y. gorffen dwdl a ddechreuwyd gan bartner neu ddatblygu lluniad o sgribl neu flot inc.

V. Anogir myfyrwyr i luniadu mewn clai, neu i luniadu ar sgraff-fwrdd, neu i luniadu gan ddefnyddio llinyn neu edau, lluniadu gan ddefnyddio dulliau gwrthsefyll cwyr neu gan ddefnyddio peiriant gwnïo. Rydym hefyd yn defnyddio llawer o ysgrifbinnau ac inc ac yn defnyddio technegau stensilio ac argraffu ar gyfer darluniau ffasiwn.

VI. Mae ein myfyrwyr Ffotograffiaeth yn cynllunio sesiynau tynnu ffotograffau ar leoliad a chyfansoddiadau ar gyfer cynlluniau stiwdio gan ddefnyddio brasluniau bawd, byrddau stori a chynlluniau diwyg. Mae hyn o gymorth mawr iddynt baratoi'n drylwyr ar gyfer sesiynau ffotograffiaeth ac yn eu hatal rhag gwastraffu amser ar ystumiau, lleoliadau, trefniadau goleuo a gosodiadau wedi'u cynllunio'n wael. Maent hefyd yn lluniadu er mwyn cyfansoddi neu nodi syniadau bras ar gyfer deilliannau terfynol megis posteri neu hysbysebion, er enghraifft, er mwyn penderfynu ar faint, math a lliw'r ffont yn ogystal â lleoliad y testun a sut y caiff ei gyfuno â'u delweddau ffotograffig.

VII. Rydym yn mynd ati i luniadu gan ystyried yr elfennau ffurfiol - patrwm, tôn, rhythm, siâp, gwead, cadarnhaol a negyddol ac ati a gaiff eu cymhwyso i luniadau arsylwadol uniongyrchol o adnoddau diddorol yn yr ystafell ddosbarth neu leoliadau allanol. Rydym hefyd yn gweithio ar luniadau asio 360°, er mwyn creu darnau panoramig cydweithredol. Mae hyn yn dueddol o gymell y myfyrwyr ac yn eu galluogi i ddysgu gan ei gilydd.

VIII. Rydym yn sicrhau yr addysgir amrywiaeth eang o sgiliau lluniadu i'r myfyrwyr er mwyn iddynt allu defnyddio dulliau priodol yn hyderus, fel y bo'u hangen o fewn unrhyw ddisgyblaeth. Rydym yn aml yn dangos fideos YouTube i'r myfyrwyr yn dangos amrywiol gamau o luniadau artistiaid a dylunwyr, er mwyn iddynt allu gweld sut y caiff lluniadau eu gwneud mewn gwirionedd - o'r cam cychwynnol. Rydym hefyd yn defnyddio ap 'spark' i gofnodi lluniadau'r myfyrwyr yn nhrefn y gwahanol gamau. Mae hyn yn eu helpu i olrhain eu cynnydd wrth luniadu ac i asesu'r elfennau llwyddiannus yn ogystal ag unrhyw agweddau y gellid eu gwella.

IX. Mae grwpiau Blwyddyn uwch, megis Blwyddyn 12, yn cyflwyno gweithdai lluniadu i'n myfyrwyr ym Mlwyddyn 10. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol a dyheadol a hefyd yn gwneud i'r myfyrwyr iau deimlo bod lluniadu yn fwy cyflawnadwy.

X. Anogir ein myfyrwyr i ystyried lluniadu fel ffordd o fynegi eu hunain. Felly gall lluniadau fod yn fynegiannol ac nid oes angen i'r myfyrwyr fod yn fursennaidd na phryderu am y gwaith a wneir.

XI. Mae lluniadu mewn 3D yn hanfodol i fyfyrwyr tecstilau. Mae ein myfyrwyr ni yn gwneud modelau papur er mwyn gwireddu dyluniadau dillad, y gellir eu gwneud ar

raddfa wirioneddol, a'u gosod ar ffurfiau gwisgo maint llawn, neu eu gwneud ar raddfa lai - a'u harddangos ar fodelau pren.

XII. Rydym yn ysbrydoli'r myfyrwyr drwy ddangos fideo ardderchog o'r diweddar Osi Rhys Osmond yn sôn am ei ddull lluniadu - fel artist (gan ddefnyddio ei lyfrau braslunio ei hun i ddangos enghreifftiau o'i bwyntiau) a hefyd fel Tiwtor Lluniadu ar y cwrs Sylfaen ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe.

XIII. Mae ein hadran yn cynnal sesiynau lluniadu ffigyrau (mewn dillad) ar ôl ysgol ac mae arddangosiadau cyffrous o wrthrychau, megis lein ddillad â golch yn hongian arni, jyngl wedi'i wneud o blanhigion a changhennau, neu gyfres o gypyrddau chwilfrydedd yn cynnwys trefniant o wrthrychau diddorol yn yr ystafelloedd dosbarth. Mae'r cyfleoedd hyn ac adnoddau sy'n darparu ysgogiadau gweledol yn helpu I greu awyrgylch sy'n fwy tebyg i stiwdio nag ystafell ddosbarth ac mae hyn yn ysgogi'r myfyrwyr ac yn eu hannog i weithio a lluniadu yn yr amgylchedd creadigol hwn.

## Dulliau Anodi

I. Mae ein myfyrwyr yn defnyddio model dadansoddi Rod Taylor: Cynnwys, Ffurf, Proses a Hwyl drwy ddefnyddio taflenni gwaith o Flwyddyn 7. O ganlyniad, mae eu sgiliau meddwl beirniadol a dadansoddi yn ddatblygedig iawn pan fyddant yn dechrau eu hastudiaethau TGAU ym Mlwyddyn 10.

II. Rydym yn sicrhau bod gan y myfyrwyr ddealltwriaeth gadarn o dermau arbenigol a geirfa celf drwy waliau geiriau a phosteri, yn ogystal ag ambell i gwis llawn hwyl. Yn y dosbarth, rydym hefyd yn gwylio rhaglenni a chlipiau sy'n dangos cyflwynwyr yn sôn am hanes celf a chelf cyfoes mewn ffyrdd diddorol sy'n addysgu ac yn diddanu.

III. Rydym yn meithrin arfer da drwy ddefnyddio fframiau ysgrifennu yng Nghyfnod Allweddol 3, sy'n atgyfnerthu gallu'r myfyrwyr i ysgrifennu am weithiau celf ac am eu cynnydd eu hunain yn ddiweddarach. Mae'r myfyrwyr hefyd yn defnyddio technegau megis siartiau llif, mapiau meddwl a diffiniadau o eiriau allweddol er mwyn cyfleu syniadau a chyd-destunau.

IV. Rydym yn creu ymatebion beirniadol ysgrifenedig drwy ddogfennu neu gofnodi trafodaethau yn y dosbarth, gan ddefnyddio taflenni awgrymiadau sy'n cynnwys cwestiynau allweddol. Mae ein myfyrwyr hefyd yn cael ysbrydoliaeth o enghreifftiau da o waith ysgrifennu creadigol, mewn erthyglau papur newydd a chylchgronau, llyfrau, ac adolygiadau o arddangosfeydd, catalogau a thaflenni, y byddwn yn eu trafod fel rhan o feirniadaethau grŵp.

V. Mae ein myfyrwyr yn defnyddio cyflwyniadau PowerPoint fel ffordd o gyfleu eu teithiau creadigol, gwerthuso eu gwaith a chysylltu camau arwyddocaol, dylanwadau a phenderfyniadau creadigol. Mae rhai myfyrwyr yn defnyddio testun a delweddau yn eu cyflwyniadau ac mae eraill hefyd yn defnyddio dulliau sain/gweledol, er enghraifft, yn cynnwys fideo ohonynt hwy eu hunain yn siarad am eu gwaith a gwaith cysylltiedig artistiaid, dylunwyr neu wneuthurwyr eraill.

VI. Mae cyflwyniad portffolio digidol pob myfyriwr wedi'i gysylltu â chod QR unigryw, a gyflwynir i'r cymedrolwr ar lechen i'w asesu.

VII. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn dysgu sut i ofyn y cwestiynau priodol er mwyn meithrin (a dangos) dealltwriaeth gyd-destunol. Mae Tacsonomeg Bloom, hetiau De Bono, lefelau a dilyniant SOLO a dull dadansoddi Rod Taylor yn darparu ffynhonnell dda o awgrymiadau ar gyfer cwestiynau a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus gennym ers blynyddoedd. Fodd bynnag, mae angen i chi wahaniaethu a rhoi cymorth i rai myfyrwyr fwy nag eraill, drwy ddarparu fformatau clir a syml ar gyfer cwestiynau i'r myfyrwyr llai galluog a chwestiynau cymhleth, mwy heriol i'r myfyrwyr datblygedig.

VIII. Mae cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid yn ffordd ardderchog o feithrin ffordd o feddwl feirniadol a dealltwriaeth gyd-destunol. Mae myfyrwyr eisoes yn gwneud hyn mewn pynciau eraill, megis Saesneg a Hanes, ac mae'n eu hannog o ddifrif i feddwl ac i ddysgu ar lefel ddyfnach ac uwch. Mae hefyd yn eu helpu i werthuso eu gwaith eu hunain yn fwy effeithiol a gall ddod yn rhan o'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau creadigol.

IX. Rydym yn defnyddio llyfrau braslunio digidol a blogiau fel fformatau ar gyfer gwaith ysgrifennu estynedig. Mae asesiadau gan gyfoedion hefyd yn ffordd ardderchog o atgyfnerthu datganiadau o fwriad a gallant helpu'r myfyrwyr i gyflwyno eu syniadau a'u gwaith yn glir i gynulleidfa.

## Cwestiynau cyffredin

### C 1. Faint o unedau a geir?

Dwy: Uned 1: Portffolio (60%)
Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (40%)

### C 2. Pwy sy'n gosod beth?

Mae'r uned Portffolio yn cynnwys gwaith personol wedi'i ddatblygu o aseiniadau, briffiau neu themâu a gaiff eu pennu'n fewnol gan y myfyriwr a/neu'r Ganolfan. Darperir y dewis o 15 o Aseiniadau wedi'u Gosod yn Allanol gan CBAC.

**C 3. Pa mor bwysig yw diddordeb a chymhelliant personol?**

Rhaid i'r Portffolio gymell diddordebau personol pob myfyriwr ac ar yr un pryd gysylltu'n briodol â phrofiadau addysgol gwerthfawr mewn celf, crefft a dylunio.

**C 4. Beth am fannau cychwyn?**

Er bod rhai aseiniadau wedi'u gosod yn fewnol, briffiau neu themâu yn gyffredin i bob myfyriwr mewn grŵp, disgwylir serch hynny y bydd pob myfyriwr yn datblygu llinellau ymholi unigol ac ymatebion personol gwahanol. Dylid osgoi 'arddull fewnol' er mwyn i'r gwaith gyflawni'r amcanion asesu yn fwy llwyddiannus.

**C 5. Beth yw penawdau'r amcanion asesu ar gyfer yr uned Portffolio?**

AA1 Dealltwriaeth feirniadol
AA2 Gwneud creadigol
AA3 Cofnodi myfyriol
AA4 Cyflwyniad personol

**C 6. A yw'r amcanion asesu yr un peth ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol?**

Ydynt, maent yr un mor berthnasol ar gyfer y ddwy uned ac mae gan bob amcan asesu yr un pwysoliad.

**C 7. Pwy sy'n cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer y Portffolio?**

Yr Athro. Dylid ei gynllunio fel cymysgedd cydlynus o brofiadau o wahanol lefelau anhawster ac arddulliau.

**C 8. A ddylai athrawon helpu'r myfyriwr i ddewis gwaith ar gyfer y Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol?**

Disgwylir i fyfyrwyr, fel rhan o'u hastudiaethau, feithrin gallu i ddewis, golygu a chyflwyno eu gwaith i'w asesu.

**C 9. Pa mor hir y dylai aseiniadau, tasgau, prosiectau a themâu fod er mwyn cwblhau'r Portffolio?**

Gall aseiniadau, tasgau, prosiectau a themâu amrywio o ran hyd - o ymarferion ymarferol byr i ymchwiliadau neu ddadansoddiadau estynedig.

**C 10. Beth ddylai'r Portffolio ei ystyried?**

Dylai ddangos tystiolaeth o'r canlynol:

- Cyflawni'r holl amcanion asesu yn gyfartal;
- Cynnwys priodol ar gyfer y teitl y cofrestrwyd ar ei gyfer;

- Cydbwysedd priodol o ran prosesau a deilliannau;
- Ehangder a dyfnder addas o ran cyfryngau, technegau a phrosesau sy'n berthnasol i'r teitl a ddewiswyd;
- Integreiddio astudiaethau beirniadol, ymarferol a damcaniaethol;
- Profiadau dysgu cyffrous, heriol, cydlynus ac ystyrlon, gan gynnwys defnydd deallus o luniadu a defnydd priodol o anodi.

### C 11. Faint o amser y dylid ei dreulio yn llunio'r Portffolio?

Nid oes cyfnod penodedig o amser ond fel arfer, caiff y gwaith yn y Portffolio ei ddewis o blith y gwaith a gynhyrchwyd rhwng dechrau'r cwrs a diwedd mis Rhagfyr cyn yr arholiad.

### C 12. Faint o waith y dylid ei gynnwys yn y Portffolio (Uned 1)?

Dylai'r pwyslais fod ar *Ansawdd* yn hytrach na *Swm*. Y cwestiwn allweddol fydd 'I ba raddau y mae'r myfyriwr wedi ymdrin â phob un o'r pedwar amcan asesu?'

### C 13: A ellir cyflwyno portffolio sydd ar ffurf ddigidol yn llwyr?

Gellir. Gall y portffolio fod ar ffurf ddigidol yn llwyr os yw hyn yn briodol ar gyfer y gwaith a wnaed ac os yw'n galluogi'r myfyriwr i ymdrin yn llawn ac yn llwyddiannus â phob agwedd ar yr Amcanion Asesu. Mae'n hanfodol y rhoddir ystyriaeth lawn i ddogfennu pob cam pwysig yn y broses greadigol, gan fod hyn yn aml yn un o elfennau gwan cyflwyniadau digidol. Gellir defnyddio meddalwedd addas er mwyn gallu ychwanegu sylwadau wedi'u hanodi i ddelweddau digidol. Gellir cynnwys lluniadau, er enghraifft, drwy ddefnyddio pwyntil a llechen graffeg neu'n syml drwy sganio brasluniau wedi'u creu â llaw.

### C 14: A yw Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol yn bwysig fel rhan o'r cymhwyster hwn?

Dylid. Mae ganddynt ddwy rôl:

- fel elfen bwysig o bob teitl yn enwedig mewn perthynas ag AA1;
- fel y teitl unigol Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol.

### C 15. Beth yw'r teitlau TGAU ar gyfer Celf a Dylunio?

Mae pob un o'r saith teitl canlynol yn cael ei gydnabod fel cymhwyster TGAU

penodol:

Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio)

Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)

Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig) Celf a

Dylunio (Dylunio Tecstilau)

Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn) Celf a

Dylunio (Ffotograffiaeth)

Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol).

**C 16. Beth ddylai'r tasgau a gaiff eu gosod gan yr athro alluogi'r myfyrwyr i'w arddangos?**

Dangos beth y gallent ei wneud yn dda - eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn celf a dylunio fel y'u mesurir gan yr amcanion asesu. Dylai'r Rhestr Wirio AA a'r Cynnwys Dangosol ar gyfer y teitl y cofrestrwyd y myfyriwr ar ei gyfer helpu i nodi beth y dylid ymdrin ag ef.

**C 17. A ellir rhannu'r Portffolio yn ddwy uned y gellir eu hasesu?**

Nac ydy. Dylid ei addysgu, ei weinyddu a'i asesu fel *un* uned waith gyffredinol a dylai ddangos gwahanol brosesau artistig creadigol er mwyn sicrhau cwricwlwm *eang*, gyda digon o gyfleoedd i'r myfyrwyr arbenigo yn eu dewis deitl.

**C 18. Erbyn pryd y dylai myfyrwyr orffen eu huned Portffolio?**

Dylid ei chwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr yn ystod blwyddyn 11. O 2 Ionawr neu'n fuan wedi hynny, dylai myfyrwyr ganolbwyntio ar yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

**C 19. Pryd y bydd myfyrwyr yn dechrau eu Haseiniad wedi'i Osod yn Allanol** *(Uned 2)* ac a oes cyfnod paratoi?

Bydd Papurau Aseiniad ar gael i'w hagor ar 2 Ionawr, neu wedi hynny. Bydd fersiynau y gellir eu lawrlwytho hefyd ar gael drwy'r wefan ddiogel ar 2 Ionawr, neu wedi hynny. Y Ganolfan fydd yn pennu'r cyfnod o amser a ganiateir ar gyfer paratoi.

**C 20. Pa mor bwysig yw'r cyfryngau digidol o fewn y cymhwyster TGAU Celf a Dylunio?**

Mae'r fanyleb yn datgan yn glir y gall myfyrwyr weithio naill ai gyda chyfryngau traddodiadol neu gyfryngau digidol neu'r ddau.

**C 21. A oes unrhyw ddeunydd ychwanegol y gallaf gael gafael arno ar wefan CBAC**

**(**[www.wjec.co.uk](http://www.wjec.co.uk))?

Oes. Gellir cael gafael ar y fanyleb ar gyfer TGAU Celf a Dylunio a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol cysylltiedig, enghraifft wedi'i farcio a chyflwyniadau canllaw yn: http://www.wjec.co.uk/qualifications/art-and-design/r-art-and-design-gcse-from-2016/index.html

Caiff deunyddiau hyrwyddo'r pwnc a fideos asesu eu cyhoeddi ar y wefan ac ar Lightbox maes o law.

Y Swyddog Cymorth Pwnc ar gyfer Celf a Dylunio yw Anna Parker:

anna.parker@wjec.co.uk Ffôn: 029 2026 5123

Y Swyddog Pwnc ar gyfer Celf a Dylunio yw Mari Bradbury:

mari.bradbury@wjec.co.uk Ffôn: 029 2026 5138

**C 22. Beth sy'n digwydd os bydd myfyriwr yn cynhyrchu deilliant cadarn ond na fydd yn cynhyrchu fawr ddim arall, os o gwbl?**

Yn y senario hon, bydd y myfyriwr yn sgorio'n wael gan na fydd wedi mynd i'r afael â'r holl amcanion asesu. Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn neilltuo'r un faint o amser i bob un o'r *pedwar* amcan asesu er mwyn sicrhau'r cyfle gorau o lwyddo.

**C 23. Sut y caiff y marciau eu rhannu ar gyfer yr Uned Portffolio?**

Caiff y marciau eu dosbarthu'n gyfartal:
AA1 Dealltwriaeth feirniadol – 30 o Farciau

AA2 Gwneud creadigol – 30 o Farciau

AA3 Cofnodi myfyriol – 30 o Farciau

AA4 Cyflwyniad personol – 30 o Farciau

**Cyfanswm = 120 o farciau**

**C 24. Sut y caiff y marciau eu rhannu ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol?**

Unwaith eto, caiff y marciau eu dosbarthu'n gyfartal:
AA1 Dealltwriaeth feirniadol – 20 o
Farciau AA2 Gwneud creadigol – 20 o
Farciau
AA3 Cofnodi myfyriol – 20 o Farciau
AA4 Cyflwyniad personol – 20 o Farciau

**Cyfanswm = 80 o farciau**

**C 25. Beth yw'r gofyniad ar gyfer AA1 Dealltwriaeth feirniadol?**

Gofynnir i fyfyrwyr ...

Datblygu syniadau drwy ymchwiliadau, gan arddangos dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau.

*Ceir esboniad manylach o'r amcan asesu hwn yn y Canllaw hwn i Athrawon ar dudalen 9.*

### C 26. Beth yw'r gofyniad ar gyfer AA2 Gwneud Creadigol?

Gofynnir i fyfyrwyr ...

Mireinio gwaith drwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi â chyfryngau, deunyddiau, technegau a phrosesau priodol.

*Ceir esboniad manylach o'r amcan asesu hwn yn y Canllaw hwn i Athrawon ar dudalen 12.*

### C 27. Beth yw'r gofyniad ar gyfer AA3 Cofnodi Myfyriol?

Gofynnir i fyfyrwyr ...

Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

*Ceir esboniad manylach o'r amcan asesu hwn yn y Canllaw hwn i Athrawon ar dudalen 18.*

### C 28. Beth yw'r gofyniad ar gyfer AA4 Cyflwyniad Personol?

Gofynnir i fyfyrwyr ...

Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn arddangos dealltwriaeth o iaith weledol.

*Ceir esboniad manylach o'r amcan asesu hwn yn y Canllaw hwn i Athrawon ar dudalen 19.*

### C 29. Pa mor bwysig yw 'llyfr braslunio'?

Mae'n bwysig **iawn**. Gall ddangos yn amlwg arsylwadau, diddordebau, sgiliau ac arbrofion y myfyriwr ei hun, h.y. ei brosesau meddwl a'i ddatblygiad personol.

### C 30. Beth yw ystyr 'estynedig' ac 'â ffocws'?

Mae'n ddefnyddiol diffinio'r term 'dwys' fel: parhau, estyn neu gefnogi drwy ddarparu tystiolaeth ddigonol. Yn aml mae'r term 'â ffocws' yn cyfeirio at ganolbwyntio meddyliau neu sylw wrth ddatblygu trafodaeth neu, yn syml, gallu gweld pethau'n glir.

### C 31: A yw CBAC yn darparu Cynllun Gwaith ar gyfer cyflwyno'r manylebau newydd?

Nac ydy. Un o lwyddiannau gwaith addysgu celf, crefft a dylunio yn y Deyrnas Unedig yw y caiff maes creadigrwydd sylweddol o fewn y cwricwlwm ei feithrin gan ddulliau addysgu creadigol ac amrywiol. Felly mae CBAC yn parchu rôl broffesiynol athrawon a'r cyd-destunau gwahanol iawn y maent yn gweithio o'u mewn. Mae'n ceisio cefnogi ac annog amrywiaeth o'r fath mewn ffordd weithredol drwy ddarparu fframweithiau hyblyg lle y gall addysgu a dysgu creadigol ffynnu, yn hytrach na hyrwyddo'r cysyniad ffug bod rhyw fath o lasbrint llwyddiannus ar gyfer addysgu creadigol.

Drwy edrych ar y deunydd enghreifftiol a'r deunydd cymorth arall sy'n gysylltiedig â'r

canllaw hwn, daw'n amlwg bod yna sawl gwahanol ddull gweithredu gwahanol ar gyfer cyflwyno cyrsiau llwyddiannus ar draws yr amrywiaeth o deitlau sy'n rhan o'r fanyleb hon.

Mae athrawon yn defnyddio llawer o wahanol strategaethau wrth gynllunio Cynlluniau Gwaith, gan ystyried dysgu blaenorol, galluoedd unigol a diddordebau unigryw pob myfyriwr, yn ogystal â'r adnoddau sydd ar gael a'u maes arbenigedd eu hunain. Rhaid ystyried maint pob grŵp o fyfyrwyr a'r dyraniad ar yr amserlen ar eu cyfer hefyd. Mae ffactorau eraill yn cynnwys lwfans y pen a hygyrchedd lleoliadau diddorol megis orielau ac amgueddfeydd.

### C 32: A oes angen tystiolaeth o luniadu ar draws yr holl deitlau ac ar ba ffurf y dylid cyflwyno hyn?

Mae pob manyleb TGAU Celf a Dylunio yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr 'ddefnyddio sgiliau lluniadu at anghenion a dibenion gwahanol, fel sy'n briodol i'r cyd-destun, er enghraifft, defnyddio lluniadu fel rhan o'r broses ddatblygu ym mhob maes astudio a ddewiswyd ganddynt'. Bwriedir i'r ffocws hwn annog myfyrwyr i werthfawrogi arwyddocâd lluniadu yn yr ystyr ehangaf, drwy nodi ac adolygu sut mae'n bwydo'r broses greadigol ar draws y disgyblaethau.

### C 33: Beth os mai dim ond ychydig iawn o dystiolaeth o luniadu y bydd fy myfyrwyr yn ei chyflwyno?

Er nad oes dyraniad marciau penodol ar gyfer lluniadu, disgwylir y bydd myfyrwyr yn meithrin ac yn dangos cymhwysedd yn y ffurfiau lluniadu sy'n briodol ar gyfer yr opsiwn a astudir ganddynt.

### C 34: A oes angen llyfrau braslunio?

Nid oes angen llyfrau braslunio a/neu lyfrau nodiadau dylunio yn benodol ar gyfer unrhyw un o'r unedau ond, os cânt eu defnyddio'n briodol, gallent ddarparu cofnodion gwerthfawr iawn o ymchwiliadau creadigol. Maent yn gweithredu fel cyfryngau effeithiol iawn i fyfyrwyr gofnodi, trwy luniadu a dulliau eraill, dameidiau diddorol o wybodaeth, rhoi cynnig ar bosibiliadau myfyrgar ac archwilio deunyddiau a thechnegau fel rhan o astudiaeth ymchwiliol. O dro i dro, cyfeirir at y rhain fel dyddiaduron gweledol ac, oherwydd hynny, byddant yn cynnwys syniadau bras a nodiadau gweledol heb eu gorffen. Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn cydnabod ac yn cael eu haddysgu am werth gweithgareddau ymchwiliol o'r fath yn hytrach na'u hystyried fel dim ond ffordd arall o gyflwyno darnau gorffenedig o waith. Gellir egluro hyn drwy gyfeirio at ddatrys problem mewn mathemateg lle yr ystyrir bod y gwaith 'gweithio allan' yr un mor bwysig â darparu'r ateb cywir.

## C 35: Pa mor fawr y dylai llyfrau braslunio / llyfrau gwaith fod?

Gallant amrywio o faint poced i A2 ac mae rhai myfyrwyr yn cyflwyno llyfrau o amrywiol feintiau a ddefnyddiwyd at wahanol ddibenion. Os mai dim ond maint A4 a ddefnyddir, gall myfyrwyr weithio o bryd i'w gilydd ar draws tudalen ddwbl (A3) neu hyd yn oed gynnwys dalen A2 wedi'i phlygu yn y llyfr. Gellir hefyd cynnwys gwahanol fathau o bapur drwy wneud hyn os bydd angen. Dylid sicrhau bod enw'r myfyriwr, rhif y ganolfan a rhif yr ymgeisydd wedi'u nodi'n glir ar bob llyfr braslunio/llyfr gwaith.

## C 36: A ddylid cynnwys sylwadau a gwaith anodi fel rhan o'r gwaith?

Dylid, oherwydd gall hyn sicrhau y caiff gwaith ymarferol a gwaith ysgrifenedig eu hintegreiddio'n bwrpasol. Dylai fod yn ffurf naturiol o weithio felly ni ddylid ystyried y broses o ychwanegu sylwadau a gwaith anodi fel gweithgaredd 'ychwanegol' neu dasg anodd y dylid gadael iddi hyd nes y bydd y gwaith ymarferol wedi'i gwblhau.

## C 37: Faint o waith y dylid ei gyflwyno i'w safoni ar gyfer pob uned?

Dylai myfyrwyr ddewis digon o waith i ddarparu tystiolaeth gadarn eu bod wedi ymdrin â phob agwedd ar y pedwar Amcan Asesu ac i gyflwyno tystiolaeth o gyflawniadau gorau'r myfyrwyr. Dylid cyflwyno tystiolaeth hefyd o bob cam *arwyddocaol* yn y broses greadigol yn ogystal â deilliannau o ansawdd. Dylai myfyrwyr hefyd ddangos eu gallu i allu dewis a dethol wrth gyflwyno eu gwaith. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol cyfeirio at enghreifftiau o wefannau, gan gofio bod ansawdd yn bwysicach na swm. Bydd cyfeirio at enghreifftiau o wefannau, yn enwedig y rheini a welwyd yn ystod digwyddiadau DPP, yn ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol i athrawon a myfyrwyr.

## C 38: A ddylai myfyrwyr ddangos proses cam wrth am ar gyfer popeth a wnaed ganddynt?

Mae'n bwysig y caiff tystiolaeth o bob 'llwybr creadigol' ei chynnwys mewn cyflwyniadau, ond nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid cyflwyno **pob** cam yn y broses honno i'w asesu. Rhaid i fyfyrwyr hefyd ddangos eu gallu i ddewis beth sy'n hanfodol berthnasol a beth nad yw'n hanfodol berthnasol. Yr hyn sydd ei angen yw tystiolaeth o bob cam **arwyddocaol** yn y broses wneud, gan roi sylw priodol i'r Rhestr Wirio Amcanion Asesu a sicrhau cydbwysedd tystiolaeth ar draws y pedwar Amcan Asesu. Ni fydd cymedrolwyr yn awyddus i bori drwy bortffolios gorlawn gan y gall hyn ei gwneud yn anodd iddynt lunio barn glir, felly mae gallu myfyrwyr i ddethol a chyflwyno yn hanfodol. Gyda'r fanyleb newydd, disgwylir na fydd y cyflwyniadau ar gyfer pob un o'r unedau asesu yn fwy o ran maint na'r cyflwyniadau ar gyfer manylebau presennol CBAC.

### C 39: I ba raddau y dylid dangos y broses o ddatblygu syniadau ac a oes angen i'r holl waith ddatblygu fod yn gysylltiedig â'r teitl a ddewiswyd?

Digon o dystiolaeth i ddangos pob cam arwyddocaol yn y broses o ddatblygu syniadau. Fel problem mathemateg, mae'r broses o 'weithio allan' ateb o leiaf yr un mor bwysig â llunio'r ateb terfynol. Yn sicr, nid yw'n ofynnol cyfyngu'r holl waith datblygu i'r teitl a ddewiswyd, ond dylai'r holl waith fod yn berthnasol i fwriadau'r myfyriwr ni waeth pa ddisgyblaethau a ddefnyddir. Dylid hefyd ystyried yr ymateb i'r cwestiwn blaenorol.

### C 40: Mae fy myfyrwyr yn mwynhau copïo gwaith artistiaid ac yn gwneud hynny'n dda. A gânt eu gwobrwyo'n llawn am hyn?

Nid yw dim ond copïo atgynhyrchiadau o waith artistiaid bob amser o fudd onid yw'r cynnyrch terfynol yn cyfiawnhau'r broses honno. O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, caiff gwaith ei gopïo fel y broses derfynol neu, ar y gorau, mae'n meithrin cymhwysedd technegol, yn hytrach na meddwl creadigol. Fel y cyfryw, nid yw'n debygol o gael ei wobrwyo'n sylweddol ac mae hynny'n llai tebygol fyth os bydd yn rhan sylweddol o'r cyflwyniad.

### C 41: A ellir cynnwys ffotograffau/atgynhyrchiadau o waith eraill?

Gellir, yn yr un ffordd ag y gellir cynnwys dyfyniadau o fewn ymatebion ysgrifenedig, ond gan gydnabod yn glir mai gwaith eraill ydyw *bob amser* ac ym *mhob* enghraifft. Ni ddylai fod unrhyw eithriad na hepgoriadau yn hyn o beth. Gellir ystyried methiant i gydnabod manylion o'r fath mewn ffordd systematig yn achos o gamymddwyn a all arwain at ganlyniadau difrifol. Dylid ymdrin â hyn yn drylwyr o ddechrau'r astudiaethau.

### C 42: A all myfyrwyr gyflwyno'r un gwaith ar gyfer gwahanol deitlau?

Nac ydy. Bydd y cymedrolwr yn edrych ar bob uned er mwyn sicrhau bod corff gwahanol o waith wedi'i gyflwyno i'w safoni ar draws gwahanol deitlau. Ni chaiff uniondeb y cymhwyster ei gynnal os bydd Canolfannau yn ailgylchu gwaith ar gyfer gwahanol deitlau. Dylid nodi y gall un myfyriwr astudio ar gyfer un neu fwy o'r teitlau ac na waherddir unrhyw gyfuniadau.

### C 44: Pryd y dylwn gyflwyno fy nghofrestriadau rhagarweiniol?

Rhaid cyflwyno cofrestriadau rhagarweiniol erbyn 10 Hydref yn ystod yr hydref cyn sefyll arholiad yr haf. (Os na fydd eich Canolfan yn cyflwyno unrhyw gofrestriadau rhagarweiniol y byddwch wedyn yn cyflwyno cofrestriadau terfynol ar eu cyfer, mae'n bosibl na fyddwch yn derbyn yr holl ddeunyddiau asesu a/neu bapurau arholiad angenrheidiol).

## C 45: Ble y gallaf ddod o hyd i'r codau mynediad ar gyfer pob teitl?

Fe'u cyhoeddir yn y Fanyleb (Tudalen 39). Nodir y

codau mynediad isod:

| Teitl y Cymhwyster | Codau cofrestru | |
|---|---|---|
| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| TGAU Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio) CBAC | 3650QS | 3650CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain) CBAC | 3651QS | 3651CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol) CBAC | 3652QS | 3652CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau) CBAC | 3653QS | 3653CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig) CBAC | 3654QS | 3654CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn) CBAC | 3655QS | 3655CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth) CBAC | 3656QS | 3656CS |

## C 46: A all myfyrwyr ailsefyll unrhyw ran o'r arholiad yn ystod y flwyddyn?

Cymhwyster llinol yw'r cymhwyster hwn lle y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn Haf 2018.

Os bydd myfyrwyr yn awyddus i ailsefyll y cymhwyster, rhaid ailsefyll pob uned.

## C 47: Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno marciau ar y wefan ddiogel?

Rhaid i ganolfannau gyflwyno eu marciau i CBAC erbyn 31 Mai yn ystod y flwyddyn asesu.

## C 48: Gall myfyrwyr astudio mwy nag un teitl TGAU Celf a Dylunio?

Gwahaniaethir pob teitl yn y fanyleb TGAU Celf a Dylunio gan godau dosbarthu neu godau ddisgownt at ddibenion ardystio a data perfformiad.
Dylai canolfannau nodi, yn achos y myfyrwyr hynny sy’n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TGAU gyda’r un cod dosbarthu, mai un radd yn unig (yr uchaf) a gyfrifir at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau. Gellir cymryd yr un safbwynt os yw myfyrwyr yn cymryd dau gymhwyster TGAU sydd â codau dosbarthu gwahanol ond sydd yn gorgyffwrdd yn sylweddol o ran cynnwys.
Rhaid i fyfyrwyr sy'n cael eu cofrestru ar gyfer mwy nag un teitl ymdrin â phob cymhwyster yn annibynnol. Yn yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, rhaid iddynt ymateb i aseiniad gwahanol ar gyfer pob cofrestriad.

Nid yw'r system ddisgowntio'n newid y dyfarniadau y mae myfyriwr unigol wedi'u cyflawni nac yn cyfyngu ar nifer y cymwysterau y gall astudio ar eu cyfer. Dylai canolfannau nodi bod y data hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ac yn ymwneud yn bennaf â mesurau perfformiad CA4.
Ceir gwybodaeth gyffredol ar godau disgownt/dosbarthu yma:

http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/usingdataeffectively/?lang=en

## C 49: Beth a ganiateir wrth baratoi ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol?

Er mwyn cyfleu arfer creadigol a chynnig yr un mynediad a phrofiadau i'r myfyrwyr ar draws disgyblaethau a themâu perthynol, mae'n hanfodol caniatáu i'r myfyrwyr ymgymryd â gwaith paratoi y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, gall gwaith paratoadol fod ar ffurf sesiynau tynnu lluniau neu sesiynau ffilmio y tu allan, neu gofnodi ffurfiau ymchwil eraill ar leoliad (braslunio, creu peintiadau ymchwiliol neu weithiau eraill megis astudiaethau tirlun/tirlun dinas, peintiadau *plein air* neu arbrofi â chelf tir, ymweliadau ymchwiliol annibynnol ag orielau i edrych ar waith dylunio graffig, tecstilau neu 3D sefydlog.) Gall y gwaith fod yn ddigidol, 3D, llyfr braslunio neu'n seiliedig ar bortffolio, neu'n unrhyw gyfuniad o'r rhain.

## C 50: Beth yw'r rheoliadau o ran y 10 awr o dan amodau arholiad?

Mae'r dyfyniadau canlynol wedi'u cyfieithu o lyfryn y Cydbwyllgor Cymwysterau *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*, sy'n ymwneud yn benodol ag arholiadau Celf. Mae'n bosibl y caiff y ddogfen hon ei diweddaru neu ei diwygio yn y dyfodol:

Tudalen 13, pwynt 4.4: **Ar gyfer arholiadau Celf**, **rhaid** i'r ganolfan ddarparu deunyddiau celf, a chyfryngau, deunyddiau a thechnoleg dylunio briodol.

Tudalen 15, pwynt 5.5: **Rhaid** cynnal profion celf wedi'u hamseru o dan amodau a fydd yn rhoi cyfle i bob myfyriwr gyflawni ei dasgau ac arddangos ei wir lefelau cyrhaeddiad yn y pynciau dan sylw.

Tudalen 18, pwynt 6.3: **Rhaid** i bennaeth y ganolfan, neu’r swyddog arholiadau, neu'r cydlynydd sicrhau ansawdd wneud y canlynol: …penodi goruchwylwyr i wneud yn siŵr bod yr arholiad yn cael ei gynnal yn unol â’r gofynion canlynol: …**o leiaf un goruchwyliwr ar gyfer pob grŵp o 20 myfyriwr neu lai sy'n sefyll arholiadau [Celf] Ymarferol**.

Tudalen 18, pwynt 6.4: Fel arfer, athro Celf a Dylunio fydd yn goruchwylio'r **prawf Celf wedi'i amseru**. Fodd bynnag, gan y gall fod yn ofynnol i'r athro Celf a Dylunio roi cymorth technegol i fyfyriwr unigol, dylid defnyddio goruchwylwyr ychwanegol yn ôl disgresiwn y swyddog arholiadau er mwyn sicrhau y caiff myfyrwyr eu goruchwylio ar bob adeg.

Tudalen 30, pwynt 11.2: **Yn achos arholiadau Celf**, gall myfyrwyr fynd ag unrhyw astudiaethau ategol paratoadol, dyddiaduron gwaith, nodiadau neu frasluniau y

maent wedi'u cynhyrchu ac sydd i'w cyflwyno i'w hasesu ynghyd â'r gwaith a wnaed yn ystod cyfnod y prawf wedi'i amseru i mewn i'r ystafell arholiadau.

Gall myfyrwyr hefyd fynd â'r gwrthrychau a'r deunyddiau sydd eu hangen arnynt er mwyn gosod grŵp bywyd llonydd.

Pan fo myfyrwyr yn mynd ag astudiaethau ategol paratoadol i mewn i'r ystafell arholiadau, **rhaid** i'r goruchwyliwr sicrhau mai eu hastudiaethau eu hunain ydynt.

**Rhaid gwneud yr arholiadau hyn o dan amodau ffurfiol**. **Ni** chaniateir i fyfyrwyr wrando ar gerddoriaeth.

Tudalen 32: **Rhaid i'r goruchwyliwr:** …atgoffa ymgeiswyr yn ystod arholiadau Celf wedi'u hamseru bod yn **rhaid** sicrhau mai eu gwaith nhw yn unig a gynhyrchir yn ystod y cyfnod prawf wedi'i amseru. Nid ydynt yn cael cyfathrebu mewn unrhyw ffordd ag ymgeiswyr eraill, na gofyn am gymorth gan ymgeisydd arall na'i roi, pan fyddant yn yr ystafell arholiadau. **(Rhaid cynnal yr arholiad Celf wedi'i amseru dan amodau arholiad ffurfiol.)**

Tudalen 60: Ni all aelodau o staff canolfan, o dan unrhyw amgylchiadau: …cyfathrebu â'r myfyrwyr, (ac eithrio mewn profion Celf wedi'u hamseru... neu wrth gynnal disgyblaeth yn yr ystafell arholiadau). Mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol hefyd i hyfforddi myfyrwyr, atgoffa myfyrwyr pa ran(nau) o'r papur cwestiynau i'w hateb neu pa gwestiynau y dylent eu hateb.

### C 51: A all myfyrwyr ddefnyddio'r Rhyngrwyd?

*Ni* chaniateir i fyfyrwyr ddefnyddio'r Rhyngrwyd. Rhaid edrych ar yr holl waith paratoadol, gan gynnwys unrhyw ddyfais storio electronig, er mwyn sicrhau mai dim ond gwaith paratoadol a gaiff ei lwytho ar y cyfleusterau storio y bwriedir eu defnyddio ar y cyd â chyfrifiadur personol neu liniadur. Gellir defnyddio systemau mewnrwyd mewnol y ganolfan hefyd ar yr amod y caiff mynediad i'r Rhyngrwyd ei ddatgysylltu.

### C 52: A all myfyrwyr edrych ar eu gwaith unwaith y bydd y sesiynau rheoledig wedi dechrau?

O ddiwedd y sesiwn reoledig gyntaf, ni ddylai myfyrwyr allu edrych ar unrhyw waith paratoadol na'r deilliant terfynol y tu allan i'r sesiynau wedi'u goruchwylio. Ar ddiwedd y cyfnod ffocws, gall myfyrwyr ddewis, cyflwyno a gwerthuso eu deunydd yn barod i'r Ganolfan ei farcio.

### C 53: Beth y dylai myfyrwyr ei wneud yn ystod y cyfnod o 10 awr o dan amodau arholiad, yn enwedig fel rhan o gyflwyniadau digidol?

Un egwyddor bwysig i'w hystyried yn hyn o beth yw gwerth addysgol Gwaith Ffocws Estynedig. Mae'n rhaid i bob un ohonom weithredu o fewn cyfyngiadau amser penodedig yn ystod ein bywyd beunyddiol ac yn y gweithle. Mae'r cyfnod o 10 awr yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr gael profiad o weithio o dan rai cyfyngiadau penodol ac o

fewn ffrâm amser wedi'i bennu ymlaen llaw. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn, mae angen cynllunio a pharatoi'n fanwl ymlaen llaw er mwyn sicrhau y ceir profiad dysgu cadarnhaol.

Rhaid cynllunio'r cyfnod o 10 awr yn briodol. Dylai pob ymgeisydd ymgymryd â'r gwaith cynllunio hwn ymlaen llaw drwy ymgynghori'n agos â'i athro. Rhaid i'r cyfnod(au) wedi'u cynllunio ystyried ffactorau trefniadol a allai gynnwys y canlynol: yr adnoddau, y cyfarpar, y gofod gwaith y bydd eu hangen; yr amser a gymerwyd i ymgymryd â'r amrywiol weithdrefnau a'r prosesau cysylltiedig megis golchi, argraffu, glanhau, sychu a thanio ac ati.

Os bydd angen, dylid rhannu'r cyfnod o 10 awr yn gyfnodau byrrach er mwyn gallu ymgymryd â gwaith atodol, megis paratoi sgriniau, sychu gwaith clai a thorri byrddau mowntio y tu allan i'r cyfnod o 10 awr. Dylai'r cyfnod o 10 awr wneud y defnydd gorau o amrywiaeth galluoedd yr ymgeisydd er mwyn sicrhau ei fod yn brawf dilys o gymwyseddau pwysig a'i fod yn cynrychioli lefel her ddigon uchel. Ni ddylai tasgau cul na thasgau cymharol hawdd, megis labelu neu fowntio gwaith neu argraffu ffotograffau ar ffurf ddigidol, ddefnyddio llawer o'r amser a ddyrannwyd, os o gwbl.

Mae'n bwysig sicrhau bod ymgeiswyr sy'n gweithio ar ffurf ddigidol yn cael yr un hawliau a phrofiadau â'r rheini sy'n gweithio o fewn disgyblaethau mwy traddodiadol yn ystod y cyfnod o 10 awr. I'r perwyl hwn, mae llawer o athrawon yn argymell dull gweithredu cymhwysol ar gyfer y gwaith ffocws estynedig mewn cyflwyniadau digidol. Er enghraifft, gallai myfyrwyr ffotograffiaeth gyfuno, haenu, trin a chyfosod testun a delweddau mewn ffordd greadigol er mwyn cyflwyno darn gorffenedig pendant gan ddefnyddio Photoshop - gan lunio posteri ymgyrchu, hysbysebion neu erthyglau ar gyfer cylchgrawn/papur newydd. Neu gallent gyfuno delweddau ffotograffig gyda chyfrwng arall megis paentio neu frodwaith â pheiriant. Mae'r math hwn o gyd-destun yn aml yn ehangu ac yn atgyfnerthu'r gwaith ac yn darparu ymdeimlad gwell o ddiben. I'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y bydd myfyrwyr ffilm neu animeiddio yn ei chael hi'n anodd cwblhau eu hymatebion o fewn y cyfnod o 10 awr. Mewn achosion o'r fath, mae angen cynllunio'n ofalus er mwyn nodi'r hyn y gellir ei gyflawni yn ystod y cyfnod ffocws estynedig a'r hyn y dylid ei gwblhau fel rhan o'r gwaith paratoadol a'r gwaith cyflwyno. Fel enghraifft gymharol, mae'n bosibl na fydd gan fyfyriwr Tecstilau ddigon o amser i gwblhau print ffabrig a llunio ac addurno dilledyn yn ystod y cyfnod ffocws estynedig. Fodd bynnag, gellir cwblhau'r gwaith printio ffabrig fel rhan o'r gwaith paratoadol ac wedyn câi'r gwaith o lunio ac addurno dilledyn ei gwblhau yn ystod y cyfnod o 10 awr. **Ym mhob achos,** rhaid nodi'r **gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod o 10 awr** yn glir yng nghorff y dystiolaeth a gyflwynir i'w chymedroli.

Er y bydd y broses o asesu'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn ystyried yn llawn yr holl waith a gyflwynwyd, bydd angen i'r cymedrolwr ystyried yr hyn y llwyddodd yr ymgeisydd i'w lunio o dan amodau rheoledig y cyfnod Gwaith Ffocws Estynedig. O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, caiff y cyfnod o 10 awr ei drefnu er mwyn sicrhau y gall yr ymgeisydd gwblhau ei waith yn ystod y cyfnod hwnnw ond, o dan rai amgylchiadau eithriadol, megis rhoi'r sglein olaf ar ddarn o waith cerameg, caiff y gwaith ei gwblhau'n fuan ar ôl diwedd y cyfnod Gwaith Ffocws Estynedig. Gall fod angen atgoffa ymgeiswyr nad oes yn rhaid i'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol arwain at ddarn o waith gorffenedig, ond y dylai fod yn ddigon gorffenedig i ddangos eu gallu i barhau â'r aseiniad hyd at ei orffen.

### C 54: A oes yn rhaid i'r Ganolfan gofnodi'r 10 awr o dan amodau arholiad?

Dylid. Mae cyfrifoldeb ar bob canolfan i gofnodi pa sesiynau y bydd pob myfyriwr yn mynd iddynt. Er mwyn helpu canolfannau, mae CBAC wedi llunio templed ar ffurf MS Word Taflen Amser (Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol).

Mae'n bosibl y bydd canolfannau yn awyddus i lunio eu system eu hunain ar gyfer cofnodi sesiynau ac mae hyn yn dderbyniol i CBAC ar yr amod y cynhwysir y wybodaeth ar y templed. Gall myfyrwyr hefyd ddefnyddio'r templed hwn fel adnodd cynllunio ar gyfer pob sesiwn, er mwyn iddynt ddeall yn union beth y maent am ei gyflawni yn ystod pob bloc o amser.

### C 55: Pa arweiniad y dylai canolfannau ei roi i fyfyrwyr wrth gwblhau eu dogfen(nau) 'Fy Natganiad Creadigol'?

Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn deall mai pwrpas pob 'Fy Natganiad Creadigol', i'w gwblhau ar gyfer pob uned asesu, yw galluogi iddynt gyflwyno i eraill y syniadau a'r gweithredoedd sy'n sail i'w cyflwyniadau. Os byddant yn ymdrin â'r broses fel ymarfer llenwi ffurflenni yn unig, prin fydd ei werth iddynt hwy nac i unrhyw un sy'n edrych ar eu gwaith.

Mae profiad helaeth o asesu portffolios TGAU wedi dangos bod myfyrwyr sydd wedi treulio amser ac wedi gwneud ymdrech i ystyried eu hamcanion yn ofalus ac i'w dogfennu ac i gynllunio'r ffordd orau i'w cyflawni, yn llunio cyflwyniadau â diben cryfach ac ymdeimlad cliriach o gyfeiriad. Felly, mae'n hanfodol ystyried y datganiad fel ymarfer cynllunio parhaus, a gaiff o bosibl ei ddogfennu ar ddechrau'r astudiaeth, ei ail-arfarnu yn ystod y gwaith ac eto ar ddiwedd y gwaith.

O ganlyniad, lluniwyd y ddogfen 'Fy Natganiad Creadigol' i weithredu fel fframwaith defnyddiol i fyfyrwyr ei ddefnyddio i drefnu eu gwaith a'i egluro i eraill. Fe'i cyflwynir o dan y penawdau 'Prif Syniad', 'Cyd-destun' a 'Myfyrio'. Dylai ddangos sut mae'r deunydd pwnc a ddewiswyd o arwyddocâd personol i'r myfyriwr. Mewn perthynas â'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, bydd yn egluro sut y dehonglwyd yr ysgogiadau a ddewiswyd. Mae'r adran olaf yn rhoi cyfle i'r myfyriwr fyfyrio'n feirniadol ar

y gwaith wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl ei gwblhau. Cliciwch ar y ddolen hon i weld enghraifft o ddogfen 'Fy Natganiad Creadigol' a gwblhawyd gan fyfyriwr.

### C 56: A oes disgwyl i mi ddilysu mai gwaith y myfyriwr ei hun yw popeth y bydd yn ei gyflwyno ac, os felly, sut y gallaf wneud hyn?

Oes, mae hyn yn bwysig iawn er mwyn sicrhau uniondeb pob cyflwyniad. Dim ond llofnod sydd ei angen, ond dylid cymryd y broses o ddifrif.

Mae'n bwysig y caiff aseiniadau eu monitro'n drwyadl gan Ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith y myfyrwyr eu hunain a gyflwynir. Mae'n ofynnol i bob myfyriwr lofnodi datganiad yn cadarnhau mai ei waith gwreiddiol yw'r aseiniad(au) a rhaid i Ganolfannau gydlofnodi eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Rhaid i

bob myfyriwr gwblhau dogfennaeth ddilysu, nid dim ond y myfyrwyr hynny a ddewiswyd ar gyfer y sampl a welir gan y cymedrolwr. Rhaid i'r myfyriwr a'r athro lofnodi'r dogfennau. Bydd dogfennau 'Fy Natganiad Creadigol' yn ategu'r broses hon drwy egluro a dilysu taith bersonol, greadigol pob myfyriwr o fewn pob uned. Ceir enghreifftiau o'r ffurflenni hyn yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan.

Rhaid cydnabod yn glir unrhyw ffynonellau eilaidd, megis delweddau o waith artistiaid neu ffotograffwyr neu ddyfyniadau a dylid nodi unrhyw waith nad yw'n perthyn yn gyfan gwbl i'r myfyriwr naill ai yng nghorff y gwaith neu yn y Ddogfen Ddilysu.

Rhaid i bob athro sydd wedi marcio gwaith myfyrwyr lofnodi'r datganiad dilysu sy'n cyd-fynd â'r ddogfen 'Fy Natganiad Creadigol' ar gyfer pob uned i gadarnhau mai gwaith y myfyriwr dan sylw yn unig yw'r gwaith a'i fod wedi'i gynnal dan yr amodau a nodir yn y fanyleb hon. Rhaid i athrawon sicrhau y caiff y ddogfen dilysu a'r ddogfen 'Fy Natganiad Creadigol' eu cwblhau ar gyfer pob myfyriwr a'u bod ar gael at ddibenion dilysu yn ystod y broses safoni. Dylid cofnodi unrhyw eithriadau dilysu o ran sut y dewiswyd ac y cyflwynwyd y gwaith dan sylw fel gwaith y myfyriwr ei hun ar y Ddogfennaeth Ddilysu.

### C 57: Sut mae myfyrwyr yn labelu eu gwaith?

Mae cyfrifoldeb ar bob canolfan i sicrhau y gellir nodi mai gwaith y myfyriwr yw pob darn o waith. Er mwyn helpu canolfannau, mae CBAC wedi llunio templedi ar ffurf dogfennau Word, fel y gall canolfannau gwblhau rhai meysydd cyn argraffu er mwyn cyflymu'r broses:

- Labelau Portffolio TGAU (pob teitl)
- Labelau Aseiniadau wedi'u Gosod yn Allanol TGAU (pob teitl)

Mae'n bosibl y bydd canolfannau yn awyddus i lunio eu system eu hunain ar gyfer adnabod gwaith ymgeiswyr ac mae hyn yn dderbyniol i CBAC ar yr amod y cynhwysir y wybodaeth ar y templed.

### C 58: Ble y gallaf ddod o hyd i'r ffiniau gradd o'r flwyddyn flaenorol?

Ar ôl dyfarnu'r cymhwyster am y tro cyntaf yn 2018, caiff y ffiniau gradd ar gyfer y fanyleb newydd eu gosod ar y cwymplenni yn yr adran Gwybodaeth Ffiniau Gradd yn adran myfyrwyr y wefan.

### C 59: Sut y dylwn bennu safonau ar gyfer fy ngwaith marcio?

Dylai rhywfaint o'r cyngor a nodir yn yr ymateb uchod fod yn ddefnyddiol wrth bennu safonau ar gyfer y fanyleb newydd. Ni fydd safonau yn is na'r safonau ar gyfer y fanyleb TGAU bresennol. Fodd bynnag, bydd adborth o'r flwyddyn gyntaf o farcio

TGAU yn 2018 yn darparu meincnod defnyddiol o'r cyfnod hwnnw ymlaen.

Bydd cyfeiriadau at enghreifftiau o wefannau yn ddefnyddiol i ryw raddau ac yn arbennig os byddwch wedi craffu arnynt fel rhan o ddigwyddiadau DPP. Wrth gyfeirio at enghreifftiau diweddar, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt o fewn y band marciau uchaf, dylid cofio bod athrawon yn aml yn fwy realistig wrth farcio gwaith myfyrwyr eraill nag wrth farcio gwaith eu myfyrwyr hwy eu hunain. Hefyd, dylai marciau ar ben uchaf yr ystod marciau fod o ansawdd gwirioneddol eithriadol, gan mai dim ond lleiafrif o gyflwyniadau sy'n cyflawni marciau ar y lefel hon.

Cynghorir canolfannau yn gryf y dylid llunio a chynnal archif o enghreifftiau er mwyn sicrhau bod ganddynt bwyntiau cyfeirio dibynadwy ar gyfer gwaith marcio yn y dyfodol. Mae'n hanfodol y caiff y marciau ar gyfer enghreifftiau o'r fath eu haddasu'n llawn er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r safonau a gymhwysir gan gymedrolwyr allanol. Gellir cyfeirio at y marciau gwirioneddol a ddyfarnwyd gan CBAC ac at adrannau perthnasol o Adroddiad y Ganolfan at y diben hwn, yn hytrach nag unrhyw adborth llafar gan y cymedrolwr.

## C 60: Sut y dylwn fynd ati i farcio unedau o waith?

Mae dau brif gwestiwn i'w hystyried wrth asesu cyflwyniadau eich myfyrwyr. Y cwestiwn cyntaf i'w ystyried yw:

1. A yw'r cyflwyniad yn ymdrin â phob agwedd ar bob Amcan Asesu? A'r ail

gwestiwn, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir, yw:

2. Beth yw ansawdd y dystiolaeth hon?

Dylech ddefnyddio'r cynlluniau marcio a ddarperir yn y fanyleb, gan gyfeirio atynt ac at y cynnwys dangosol er mwyn cael arweiniad, wrth asesu Unedau 1 a 2 yn fewnol. Cawsant eu llunio er mwyn cyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â marciau ac yn helpu i wahaniaethu'n glir rhwng yr amrywiol lefelau cyflawniad. Bydd y cynlluniau marcio o'r gwerth mwyaf pan gânt eu defnyddio ar y cyd â'r deunyddiau canllaw ac enghreifftiau o waith wedi'u hasesu, y bydd CBAC yn eu darparu er mwyn helpu canolfannau i nodi ansawdd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r banciau marcio amrywiol.

Mae'n bwysig bod yn gwbl wrthrychol am eich gwaith marcio a sicrhau na fydd yr hyn rydych yn ei wybod am y myfyriwr a'i waith yn dylanwadu arnoch. Bydd safonwr ymweld yn seilio ei farn ar y dystiolaeth mae'n ei weld yn unig. Yn yr un modd, *ni* ddylai safbwyntiau gwrthrychol roi ystyriaeth uniongyrchol i ymdrech, potensial hysbys neu hyd yn oed anawsterau megis problemau iechyd y mae'r ymgeisydd o bosibl wedi'u hwynebu.

Rhaid llunio barn yn erbyn pob un o'r pedwar Amcan Asesu, gan y bydd perfformiad myfyriwr yn aml yn wahanol ar gyfer AA1, AA2, AA3 ac AA4. Mae angen sgôr ar wahân ar gyfer pob un a bydd pob cymedrolwr bob amser yn rhoi marc ar gyfer pob un o'r pedwar Amcan Asesu.

Ar ôl penderfynu i ba raddau yr ymdriniwyd â phob rhan o bob Amcan Asesu, rhaid llunio barn wedyn o ran y safon a gyrhaeddwyd ym mhob un. Un o ddibenion canolog y broses asesu fewnol yw rhoi trefn ar alluoedd myfyrwyr. Yn ffodus, mae athrawon yn gyffredinol yn fwy cywir wrth lunio safbwyntiau *cymharol*, h.y. cymharu â gwaith sydd ychydig yn well neu ychydig yn waeth na'r cyflwyniad dan sylw, nag wrth lunio safbwyntiau *absoliwt*, h.y. yn annibynnol ar gymharwyr. Mae'r egwyddor hon hefyd yn ddefnyddiol wrth weithio gyda chydweithwyr o ddisgyblaethau celf a dylunio eraill i bennu safonau cyffredin (y cyfeirir ati fel proses safoni fel arfer) ar draws pob Canolfan. Yn anffodus, yn aml mae'r ymarfer hwn yn cynnwys dimensiwn *gwleidyddol,* y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'masnachu ceffylau', sy'n aml yn arwain at ystumio safonau. Gellir defnyddio strategaethau rheoli da er mwyn dileu canlyniadau negyddol proses a ddylai fod yn ddefnyddiol iawn.

Er mwyn llunio set o farciau dibynadwy a dilys, bydd Cynlluniau Marcio yn amlwg yn chwarae rhan werthfawr (cyfeiriwch at y cynllun marcio priodol ar gyfer yr uned rydych yn ei marcio). Argymhellir hefyd y dylid cyfeirio at yr enghreifftiau sydd ar gael ar wefannau CBAC a lightbox, yn enwedig os gwelwyd y rhain fel rhan o ddigwyddiadau DPP.

Os lluniwyd trefn gywir ac os cymhwyswyd dulliau marcio realistig, yna ni ddylai fod yn anodd i'r cymedrolwr allanol wneud unrhyw addasiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

**C 61: Os oes nifer o arweinwyr/adrannau yn addysgu gwahanol elfennau neu ardystiadau, a ddylid cyflwyno tystiolaeth o weithgareddau traws-gymedroli (safoni) cyn i'r safonwr gyrraedd?**

Dylid. Lle bo mwy nag un athro mewn canolfan neu gonsortiwm, mae'n hanfodol y caiff gwaith o bob grŵp addysgu ei safoni'n fewnol cyn cyflwyno'r marciau erbyn y dyddiad cau ym mis Mai, er mwyn sicrhau y gall CBAC fod yn hyderus bod y ganolfan wedi cytuno ar drefniadau ar gyfer cydgysylltu safonau er mwyn llunio trefn gyffredinol ar gyfer y myfyrwyr ar gyfer pob uned o fewn pob teitl. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod y marcio’n gyson a bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer yr holl grwpiau addysgu dan sylw. Rhaid i un person a enwir fod yn gyfrifol am y broses hon, sef y pennaeth adran fel rheol.

Fel rhan o safoni mewnol gall yr holl athrawon dan sylw farcio rhai darnau enghreifftiol o waith yn annibynnol er mwyn darganfod unrhyw wahaniaethau mewn safonau marcio. Dylai gwahaniaethau o’r fath gael eu trafod gan bawb er mwyn cyrraedd safon gyffredin y cytunwyd arni.

I’r diben hwn, gall fod o gymorth i gyfeirio at ddeunydd archifol megis gwaith blaenorol neu enghreifftiau ar-lein a ddarperir gan CBAC.

Rhaid cyflwyno marciau Uned 1 ac Uned 2 i CBAC erbyn y dyddiad cau ym mis Mai ym mlwyddyn yr arholiad.

Os na fydd proses safoni wedi'i rhoi ar waith, yna rhaid hysbysu'r cymedrolwr o hynny pan fydd yn cyrraedd y Ganolfan. Gall wedyn benderfynu peidio â chymedroli'r

Ganolfan hyd nes y bydd y broses safoni wedi'i chynnal. Gellir codi tâl ar y Ganolfan am yr ail ymweliad.

### C 62: Pryd y dylid cyflwyno marciau?

Mae'n ofynnol i ganolfannau gyflwyno marciau ar gyfer y ddwy uned a aseswyd yn fewnol ar-lein erbyn

**31 Mai** yn ystod tymor yr haf y flwyddyn lle caiff y gwaith ei gyflwyno i'w safoni.

### C 63: Sut y gallaf newid marc os byddaf yn dod o hyd i wall clerigol ar ôl cyflwyno marciau fy nghanolfan drwy'r wefan ddiogel?

Rhaid i'r ganolfan hysbysu CBAC ar bapur swyddogol y ganolfan neu drwy gyfeiriad e-bost swyddogol y ganolfan am unrhyw newidiadau i'r marciau oherwydd gwallau clerigol, gwaith coll, gwaith ychwanegol, ac ati. Mae'r ganolfan yn gwbl gyfrifol am hysbysu CBAC. Dylid hefyd hysbysu'r cymedrolwr allanol am wallau o'r fath, a bydd yn diwygio ei waith papur ac yn dychwelyd newidiadau swyddogol y Ganolfan i'r marciau i CBAC. Gwneir penderfyniad o ran p'un a ddylid newid marciau'r Ganolfan yn ôl disgresiwn CBAC.

### C 64: Beth os caiff gwaith ei golli neu ei ddifrodi neu os bydd yr ymgeisydd wedi cael problem iechyd neu broblemau eraill yn ystod ei gwrs?

Fel rheol, bydd gwaith sy'n cael ei golli neu ei ddifrodi yn gymwys ar gyfer ystyriaethau arbennig o dan yr amgylchiadau a amlinellir isod:

- mae'r ymgeisydd wedi cwblhau o leiaf un darn o waith ac wedi ymdrin â'r holl amcanion asesu o leiaf unwaith

- ni chafodd y gwaith ei golli neu ei ddifrodi o ganlyniad i esgeulustod yr ymgeisydd

- ac mae'r ganolfan yn gallu cadarnhau i'r gwaith gael ei gwblhau neu ei rannol gwblhau ac iddo gael ei fonitro tra oedd yn cael ei wneud.

Dylai'r marc sydd wedi'i amcangyfrif gael ei gyflwyno i'r safonwr a CBAC yn y ffordd arferol erbyn y terfyn amser cyflwyno marciau. Dylid seilio'r amcangyfrif ar amcangyfrif yr athro o waith y mae wedi'i weld. Peidiwch â cheisio amcangyfrif marciau am waith nad ydych wedi'i weld.

Dylid defnyddio Ffurflen 15 - JCQ/LCW sydd ar gael yn http://www.jcq.org.uk/exams-office/forms i roi gwybod i CBAC am unrhyw waith sydd wedi'i golli neu ei ddifrodi.

Mae'n well trafod materion iechyd neu hygyrchedd gyda'r Swyddog Arholiadau yn eich Canolfan yn gyntaf, oherwydd gallant hefyd fod yn berthnasol i bynciau eraill a astudiwyd gan y myfyriwr. Os bydd angen, gall y Swyddog Arholiadau awgrymu y dylid trafod y mater

gydag adran Gofynion Arbennig CBAC a fydd yn rhoi cyngor ar ba weithdrefnau i'w dilyn gan y gallant amrywio yn ôl yr amgylchiadau dan sylw.

Dylid cyfeirio at ddogfen y Cydgyngor Cymwysterau, 'A guide to the special consideration process' - [http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-specialconsideration](http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-specialconsideration)

## C 65: Sut mae'r tîm safoni yn pennu safonau?

Yn ystod yr wythnos cyn y cyfnod o dair wythnos lle y cynhelir yr ymarfer safoni caiff gwaith byw o nifer o wahanol ganolfannau ei gasglu a'i arddangos mewn canolfan gynadledda. Wedyn, caiff y gwaith hwn ei farcio'n annibynnol gan dîm o uwch gymedrolwyr sy'n meddu ar brofiad helaeth yn ogystal â gwybodaeth arbenigol o fewn disgyblaethau penodol. Maent yn cyflwyno eu marciau i'r Prif Arholwr sydd wedyn yn cynnal ymarfer safoni, dros gyfnod o ddeuddydd, gyda'r uwch dîm er mwyn llunio set o farciau cytûn ar gyfer pob Amcan Asesu ac ar gyfer pob uned o waith a farciwyd. Caiff yr unedau eu dewis er mwyn cynnwys holl brif deitlau'r fanyleb a dewisir amrywiaeth o feincnodau er mwyn helpu cymedrolwyr i ategu'r safonau.

Ar y dydd Sadwrn yn union cyn yr ymweliadau safoni, bydd y tîm safoni llawn yn ymgymryd ag ymarfer marcio tebyg. Caiff y tîm ei ddewis o blith athrawon profiadol sydd wedi gwneud cais i ddod yn gymedrolwyr. Caiff cywirdeb eu gwaith marcio blaenorol yn eu canolfannau eu hunain ei ystyried fel rhan o'r broses ddethol.

Yn gyntaf, byddant yn marcio'n annibynnol, yn cyflwyno eu marciau er mwyn cyfrifo marc cymedrig ar gyfer pob uned a chaiff y marciau hyn eu cymharu â'r marciau y cytunwyd arnynt gan yr uwch dîm. Ym mhob achos, fwy neu lai, mae'r ddwy set hyn o farciau yn agos iawn ac yn aml, maent yn unfath. Lle ceir gwahaniaethau o ychydig farciau rhwng unedau penodol, cânt eu hadolygu gan y tîm cyfan a, thrwy drafod, cytunir ar y marciau.

Gall y tîm cyfan o gymedrolwyr gyfeirio at y safonau hyn y cytunwyd arnynt, sy'n ffres yn eu cof, ym mhob canolfan y byddant yn ymweld â hi a byddant hefyd yn cael copi lliw o ddeunydd gweledol yn nodi'r meincnodau wrth adael y gynhadledd er mwyn eu hatgoffa o'r hyn a welwyd ganddynt. Mae llawer o gymedrolwyr hefyd yn tynnu eu ffotograffau eu hunain yn ystod y ddau ddiwrnod. Bydd uwch gymedrolwr yn ymweld â phob cymedrolwr o leiaf unwaith er mwyn marcio sampl briodol o unedau yn annibynnol. Cyflwynir y ddwy set o farciau i CBAC er mwyn gallu dilysu safonau marcio. Cadarnheir dibynadwyedd pob cymedrolwr hefyd, drwy gymharu eu marciau â'r safonau y cytunwyd arnynt yn y Gynhadledd i Gymedrolwyr.

Caiff marciau'r cymedrolwyr ar gyfer pob uned a farciwyd ym mhob Canolfan yr ymwelir â hi, ynghyd â'r marciau a ddyfarnwyd gan uwch gymedrolwyr, eu cofnodi ochr yn ochr â marciau'r ganolfan. Os bydd marciau'r Ganolfan y tu allan i'r lefelau goddefiant, o gymharu â'r safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a gymhwyswyd gan y cymedrolwr, caiff y marciau eu graddio (addasu). Rhoddir ystyriaeth briodol i berfformiad marcio pob cymedrolwr cyn gwneud unrhyw addasiadau i farciau canolfannau.

### C 66: Sut mae'r broses safoni yn gweithio?

Ar ôl yr asesu mewnol, cyflwyno'r marciau i CBAC a nodi'r sampl i'w safoni, bydd cymedrolwr allanol yn ymweld. Cynhelir y broses hon yn ystod Mai a Mehefin fel arfer a bydd yn cynnwys yr holl waith a nodwyd i'w safoni mewn canolfan. Bydd y cymedrolwr yn asesu'r ddwy uned TGAU yn ystod yr ymweliad. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl o'r broses safoni.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod myfyrwyr yn cyflwyno eu gwaith yn y ffurf fwyaf priodol ar gyfer y gwaith a gynhyrchwyd. Mae'n hanfodol labelu pob darn o waith yn glir ac arddangos elfennau cysylltiedig (er enghraifft, llyfrau braslunio a deilliannau) gyda'i gilydd. Y canolfannau hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau mai'r un gwaith sy'n cael ei gyflwyno i'r cymedrolwr allanol ag a gyflwynwyd yn wreiddiol i'w asesu'n fewnol ac nad yw wedi'i ategu gan unrhyw ddeunydd ychwanegol.

Bydd cymedrolwyr yn rhoi adborth manwl i Ganolfannau ar ffurf adroddiad a fydd ar gael ar wefan CBAC o'r dyddiad y cyhoeddir y canlyniadau. Gwneir addasiadau i farciau asesiad mewnol y canolfannau os penderfynir nad yw'r asesiad hwnnw'n cydymffurfio â'r safonau cyffredin a sefydlwyd gan CBAC. Os nad yw Canolfannau'n cytuno â chanlyniadau'r broses safoni, mae dewis o wasanaethau ar gael iddynt ar ôl y canlyniadau fel yr amlinellir ar y wefan.

### C 67: Pam y gallai'r bwrdd arholi newid fy marciau?

Caiff pob uned ei marcio'n fewnol a'i chymedroli'n allanol ac mae cyfrifoldeb ar CBAC fel sefydliad dyfarnu i sicrhau y caiff yr holl waith ei farcio'n unol â safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Gwneir hyn drwy ymarferion cymaradwyedd â sefydliadau dyfarnu eraill.  Cyfeirir hefyd at broffil marcio pob cymedrolwr a geir gan gymedrolwyr, a thrwy ymweliadau traws-gymedroli gan uwch safonwyr. Os bydd CBAC yn dod o hyd i dystiolaeth ddibynadwy bod marciau Canolfan y tu allan i'r paramedrau a bennwyd, bydd yn addasu'r marciau hynny. Gellir addasu marciau i fyny neu i lawr.

### C 68: Beth y gallaf ei wneud os na fyddaf yn cytuno â'r marciau a ddyfarnwyd i'm myfyrwyr?

Dylai canolfannau sy’n dymuno gwneud ymholiadau am ganlyniadau wneud cais ar-lein drwy’r wefan ddiogel. Rhaid i’r cais hwn gael ei dderbyn erbyn 20 Medi. Darllenwch y weithdrefn yn fanwl cyn gwneud y penderfyniad hwn gan fod Gwasanaeth 3 yn golygu ailfarcio’r sampl wreiddiol gyfan a gymedrolwyd yn llwyr (dyma’r rheswm pam na ddylai myfyrwyr gael mynediad i’w gwaith ar ôl dyddiadau cwblhau Canolfannau). Nid yw’r gwasanaeth ar gael ar gyfer unrhyw uned lle derbyniwyd marciau'r Ganolfan heb eu newid gan CBAC. Cost y gwasanaeth hwn fydd tua £310 waeth faint o unedau y gwneir cais yn eu cylch.
Noder na chodir unrhyw ffioedd os caiff marciau'r Ganolfan eu cadarnhau. Nid oes angen caniatâd gan y myfyriwr ar gyfer Gwasanaeth 3 oherwydd gellir gostwng marciau'r myfyriwr ond *ni* ellir gostwng ei raddau pwnc yn y gyfres dan sylw. Fodd bynnag, dylai Canolfannau fod yn ymwybodol y gellid trosglwyddo marc wedi'i ostwng i ardystiad yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar ein gwefan o dan **Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau**.

*Delweddau drwy garedigrwydd Coleg Sir Gâr, Prifysgol De Cymru, Academi Celfyddydau Caerdydd, Coleg Caerdydd a'r Fro, Ysgol Bryn Hafren, Academi Gosforth, Ysgol Hardenhuish, Ysgol Tregaron ac Ysgol Eglwys Gadeiriol Wells.*